

Graddedigion er mwyn ein Dyfodol' thema gwella: Dysgu mewn Cyflogaeth



Dysgu ar gyfer Cyflogaeth





Cynnwys

4. Cyflwyniad
7. Yr astudiaethau achos
9. **Astudiaethau Achos yn ôl Sefydliad**
- Prifysgol Aberystwyth:**
 9. Rhwydwaith Cyfleoedd Aberystwyth –
 11. Integreiddio cyflogadwyedd i'r cwricwlwm
- Prifysgol Bangor University:**
 12. Dysgu mewn cyflogaeth: dull gweithio sefydliadol
- Prifysgol Fetropolitan Caerdydd:**
 13. Elevate Cymru: prosiect rhwydwaith gweithio perfformiad uchel Cymru-gyfan
- Coleg Caerdydd a'r Fro:**
 15. Datblygu cymwysterau lefel-uwch ffurfiol ar gyfer cynorthwyyr cymorth dysgu sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd a chyfun ym Morgannwg a Chaerdydd
- Prifysgol Caerdydd:**
 17. Profiad ymchwil dilys i fyfyrwyr: Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd (CUROP)
 19. Cefnogi e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus
- Coleg Llandrillo**
 21. Datblygu modiwlau Dysgu Gweithredol o fewn graddau Sylfaen yng Ngholeg Llandrillo
- Prifysgol Glyndŵr:**
 22. Datblygu graddau sylfaen
- JISC RSC Cymru:**
 23. International student ambassadors
- Prifysgol Fetropolitan Abertawe:**
 26. Dysgu yn y gwaith: Adloniant, Digwyddiadau, Twristiaeth a Chwaraeon
 28. Lleoliadau Diwydiannol Cymhwysol
- Prifysgol Abertawe:**
 30. Cyflwyno Dysgu Seiliedig ar Waith i Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Prifysgol Morgannwg:**
 31. Dysgu mewn Cyflogaeth: gwerthusiad beimiadol gan Gyfadran Busnes a Chymdeithas
 33. Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith Cymru-gyfan a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop
 35. Rhaglen Gradd Sylfaen Cymru-gyfan a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop
 37. Dysgu trwy Gyflogaeth: pecynnau cymorth fframwaith ac adnoddau
 40. Academi Newid yr Academi Addysg Uwch: Dysgu Trwy Gyflogaeth
- Prifysgol Cymru, Casnewydd:**
 41. Prosiectau Partneriaeth mewn Chwaraeon
 43. Dysgu Hyblyg mewn Senarios Cyflogaeth a Chymuned (FLECS)
 44. Adnodd ôl-raddedig Academi Cyfryngau Skillset
 46. Rhaglen Mewnwelediad Strategol (SIP)
 48. Gwella dysgu mewn cyflogaeth drwy gyfnewid
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Sefydliadol):**
 49. LATERAL (Rhyddhau Doniau drwy Gydabyddiaeth ac Achrediad Dysgu â Chymorth Technoleg)
 52. Dyslecsia Cymru: cefnogi anghenion gweithwyr â dyslecsia yng Nghymru
 54. Tystysgrif i Raddedigion mewn Arweinyddiaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus: dull gweithio cydweithredol i gynllunio cwricwlwm ac APEL
57. Cyfeiriadau



Mewn ymateb i strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch, Er Mwyn Ein Dyfodol (Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau 2009), cytunwyd gan gynrychiolwyr o'r prif rhanddeiliaid addysg uwch i gyd ar thema gwella â ffocws i Gymru - Graddedigion er mwyn ein Dyfodol – wedi'i hadeiladu o gwmpas tri prif faes gwaith: Dysgu ar gyfer Cyflogaeth, Dysgu mewn Cyflogaeth a Myfyrwyr fel Partneriaid. Lanswyd y meysydd gwaith yn swyddogol ym mis Mawrth 2011 a dechreuodd y tri grŵp drafod sut yr oeddent yn gallu cipio arloesedd ac ymarfer o'r sector. Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynrychioli'r maes gwaith Dysgu mewn Cyflogaeth ac yn cynnwys 25 astudiaeth achos o addysg bellach ac uwch a Chanolfan Cymorth Rhanbarthol Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC RSC).

Aelodaeth Grŵp

Prifysgol Aberystwyth – John Grattan

Prifysgol Bangor – Lindsay Jones

Prifysgol Fetropolitan Caerdydd – David Lloyd

Coleg Caerdydd a'r Fro – Emil Evans

Prifysgol Caerdydd – Sarah Williamson

Coleg Llandrillo – Paul Roberts

Prifysgol Glyndŵr – Trish Reid

JISC RSC – Lis Parcell

Coleg Merthyr Tydfil – Maria Heffernan

Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Quality – Anett Loescher

Prifysgol Fetropolitan Abertawe – David Trenberth

Prifysgol Abertawe – Megan Rosser a Gail Mooney

Prifysgol Agored – Rob Humphreys

Prifysgol Morgannwg – Karen Fitzgibbon (Arweinydd Maes Gwaith)

Prifysgol Cymru – Andrew Jones

Prifysgol Cymru, Casnewydd – Jo Smedley

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant – Liz Wilson

Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru – Danny Saunders

Diffinio 'dysgu mewn cyflogaeth'

Tasg gyntaf y grŵp oedd cytuno ar ddiffiniad o ddysgu mewn cyflogaeth a fydd yn darparu sgôp digonol i gwmpasu'r gweithgareddau amrywiol a drafodwyd gan aelodau. Cytunwyd ar y diffiniad gweithio hwn:

Mae dysgu mewn cyflogaeth yn achrediad o ran o raglen neu raglen ddysgu cyfan myfyriwr drwy gydnabyddiad ffurfiol o brofiad yn y gweithle.

Roeddem yn ffodus i gael diffiniad mor eang gan fo eraill wedi denu sylw at gymhlethdod diffinio dysgu mewn/trwy gyflogaeth (Lemanski, Mewis ac Overton, 2011; Moreland, 2005; Yorke a Knight, 2006). Yn arbennig mae Laycock (2011) yn darparu amlinelliad cynhwysfawr o'r haenau niferus o ddulliau dysgu seiliedig yn y gwaith, yn y gweithle a chysylltiedig â gwaith, pob un â'u pwyslais arbennig eu hunain. Mae'r casgliad Dysgu mewn Cyflogaeth o astudiaethau achos yn cyffwrdd â phob un o'r elfennau hyn ac mae'n diffiniad yn ceisio darparu ymbarél er mwyn casglu'r gweithgareddau dysgu mewn cyflogaeth oddi tano.

Themâu a ddaeth i'r amlwg

Yn ein trafodaeth, nodwyd nifer o themâu a ddaeth i'r amlwg o'r astudiaethau achos gan y grŵp, fel:

- profiadau dysgwyr;
- profiadau cyflogwyr;
- asesiad;
- ymgysylltiad alumni;
- sicrhau ansawdd.

Yn ôl y disgwyl, ceir myfyrdodau sy'n ymwneud â phrofiadau dysgwyr a chyflogwyr yn y mwyafrif o'r astudiaethau achos. Mae'r profiadau myfyrwyr yn yr astudiaethau achos yn amrywiol iawn ac yn cynnig darlun gyfoethog o gyfleoedd dysgu a modelau ar draws y sector AU yng Nghymru.

Cynigir profiadau cyflogwyr mewn nifer o'r astudiaethau achos, yn cynnwys y rheiny o Aberystwyth, Metropolitan Caerdydd, Morganwg, Casnewydd ac Abertawe.

Mae'r lled mecanweithiau asesu ar gyfer dysgu mewn cyflogaeth yn eang iawn. Mae Laycock (2011) ar ben ei hun yn cynnig 23 o ddulliau gwahanol.

Yn yr astudiaethau achos a gyflwynir yma, cyflawnir asesu drwy ddefnydd portffolios (Abertawe ac Metropolitan Abertawe) a phortffolios adfyfyriol (Y Drindod Dewi Sant), tra bod achosion eraill yn awgrymu dulliau lluosog o asesu (Caerdydd a'r Fro, Morgannwg, Llandrillo). Ymdrinir â chynnwys alumni mewn ymgysylltu â dysgu mewn cyflogaeth gan Aberystwyth a Chaerdydd.

Mae pob astudiaeth achos yn arddangos yr angen ar gyfer ystyriaeth ofalus o fecanweithiau sicrhau ansawdd. Mewn rhai achosion (Aberystwyth a JISC RSC) ystyrir hyn yn amlwg, tra bod darllen gofalus o'r astudiaethau achos sy'n weddill yn pwyntio tuag at ystyriaethau sylfaenol o anghenion sicrhau ansawdd.

Mae'r defnydd o amrywiaeth eang o ddulliau addysgol, andragogaethol a heutagogaethol yn amlwg, gyda'r mwyafrif o astudiaethau achos yn cael craidd canfyddadwy o ran dysgu ac addysgu. Mae'n arbennig o amlwg y defnyddir y dull o fyfyrwyr fel cyd-greawdwyr o ddysgu, gwybodaeth ac asesu yn aml mewn dysgu a chyflogaeth – a bod hyn yn ei dro yn helpu i gryfhau'r agenda 'myfyrwyr fel partneriaid' yng Nghymru.

Mae'r astudiaethau achos yn cynrychioli cipolwg o weithgaredd ar draws y sector yng Nghymru o ran dysgu mewn cyflogaeth. Fodd bynnag, dim ond y dechrau yw hyn. Bydd Cynhadledd agoriadol Future Directions ym mis Ebrill 2012 yn darparu cyfle i edrych ymlaen ac ystyried, yn arbennig: y defnydd o ddysgu â chymorth technoleg mewn cyflogaeth; mesur effaith dysgu mewn cyflogaeth; y defnydd o gredydau dysgwyr trosglwyddadwy; a'r defnydd o ddulliau newid sefydliadol i ddiogelu cyfleoedd ar gyfer datblygiad ymhellach o strategaethau dysgu mewn cyflogaeth.



Yr astudiaethau achos

Mae'r astudiaethau achos yn cynnig ystod o lefelau gweithredu. Cyflwynwyd rhai ar lefel ddyfarniad, rhai ar draws cyfadran, ac eraill ar lefel sefydliadol. Mae'n bosib felly i gymryd yr enghreifftiau a ddangosir a newid y graddfa i fyny neu lawr i ateb anghenion addysgwyr unigol neu dîmau sefydliadol.

Fel cyfarwyddyd, dangosir y lefel gweithredu mewn cromfachau yn ymyl enw'r sefydliad yng nghorff y ddogfen. Mae rhai o'r astudiaethau achos yn rhan o'r rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith neu'r rhaglen Gradd Sylfaen, a ariennir gan Raglen Gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop yr Undeb Ewropeaidd, trwy Lywodraeth Cymru. Bydd y testun o fewn yr astudiaethau achos unigol yn dangos hyn.

Astudiaethau achos gan sefydliadau sy'n cymryd rhan

Sefydliad	Enw'r menter	Lefel gweithredu	Cyfrannwr	Tudalen
Prifysgol Aberystwyth	Rhwydwiath Cyfleoedd Aberystwyth	Sefydliadol (Cyfnod peilot)	Carolyn Parry	6
Prifysgol Aberystwyth	Integreiddio cyflogadwyedd i'r cwricwlwm	Dyfarniad	Kate Bullen	7
Prifysgol Bangor	Dysgu mewn cyflogaeth: dulliau gweithio sefydliadol	Sefydliadol	Lindsay Jones	9
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	Elevate Cymru: prosiect rhwydwaith gweithio perfformiad uchel Cymru gyfan	Sefydliadol	David Lloyd	10
Coleg Caerdydd a'r Fro	Datblygu cymwysterau lefel-uwch ffurfiol ar gyfer cynorthwyrwr cymorth dysgu sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd a chyfun ym Mro Morgannwg a Chaerdydd	Dyfarniad	Emil Evans	12
Prifysgol Caerdydd	Profiad ycmhwil dilys i fyfyrwyr: Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd	Sefydliadol	Sarah Williamson	13
Prifysgol Caerdydd	Cefnogi e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus	Sefydliadol	Sarah Williamson	16
Coleg Llandrillo	Datblygu modiwlau Dysgu Gweithredol o fewn graddau Sylfaen yng Ngholeg Llandrillo	Sefydliadol	Paul Roberts	18
Prifysgol Glyndŵr	Datblygu graddau sylfaen	Sefydliadol	Trish Reid	19
JISC RSC	Adnoddau Addysgol Agored TELSTAR	Sefydliadol	Lis Parcell	21
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	Dysgu yn y gwaith— Adloniant, Digwyddiadau, Twristiaeth a Chwaraeon	Cyfadrn	Jacqui Jones	24

Prifysgol Fetropolitan Abertawe	Lleoliadau diwydiannol cymhwysol	Cyfadran	David Trenberth	26
Prifysgol Abertawe	Cyflwyno Dysgu Seiliedig ar Waith i lechyd a Gofal Cymdeithasol	Cyfadran	Megan Rosser a Gail Mooney	28
Prifysgol Morgannwg	Dysgu mewn cyflogaeth: gwerthusiad beirniadol gan Gyfadran Busnes a Chymdeithas	Cyfadran	Julie Gould and Lesley Long	29
Prifysgol Morgannwg	Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith Cymru gyfan a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop	Sefydliadol	Leanne Jones	31
Prifysgol Morgannwg	Rhaglen Gradd Sylfaen Cymru gyfan a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop	Sefydliadol	Clare Naylor	33
Prifysgol Morgannwg	Dysgu Trwy Gyflogaeth: pecynnau cymorth fframwaith ac adnoddau	Sefydliadol	Heather Skinner and Peter Green	35
Prifysgol Morgannwg	Academi Newid yr Academi Addysg Uwch: Dysgu Trwy Gyflogaeth	Sefydliadol	Karen Fitzgibbon	37
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Prosiectau Partneriaeth mewn Chwaraeon	Dyfarniad	Mel Tuckwell	39
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Dysgu Hyblyg mewn Senarios Cyflogaeth a Chymuned (FLECS)	Sefydliadol	Jo Smedley	40
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Adnodd ôl-raddedig Academi Cyfryngau Skillset	Cyfadran	Hannah Raybould	41
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Rhaglen Mewnwelediad Strategol (SIP)	Sefydliadol	Cheryl Moore	43
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Gwella dysgu mewn cyflogaeth drwy gyfnewid	Sefydliadol	Martin Edwards	45
Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant	LATERAL (Rhyddhau Doniau drwy Gydabyddiaeth ac Achrediad Dysgu â Chymorth Technoleg)	Sefydliadol	Liz Wilson a Elsie Reynolds	46
Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant	Dyslecsia Cymru: cefnogi anghenion gweithwyr â dyslecsia yng Nghymru	Dyfarniad	Liz Wilson a Elsie Reynolds	49
Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant	Tystysgrif i Raddedigion mewn Arweinyddiaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus: dull gweithio cydweithredol i gynllunio cwricwlwm ac APEL	Dyfarniad	Liz Wilson a Elsie Reynolds	52



Astudiaethau Achos yn ôl Sefydliad

Rhwydwaith Cyfleoedd Aberystwyth

Prifysgol Aberystwyth (Sefydliadol)

Geiriau Allweddol: ymgysylltiad alumni, gwella cyflogadwyedd, gwella ymgysylltiad cyflogwyr, creu cyfleoedd

Nod:

- cynyddu dyheadau gyrfa a chyflawniadau myfyrwyr Aberystwyth a graddedigion pob disgyblaeth;
- cynyddu mynediad i gyfleoedd rhyngwladol i wrthweithio yn erbyn cyfyngiadau'r farchnad leol;
- ysgogi gwybodaeth gyflogaeth alumni a darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer addysg a datblygu gyrfaedd;
- galluogi y rheiny sy'n cymryd rhan i ddatblygu sgiliau rheoli gyrfa, arddangos cyflawniad a photensial mewn ceisiadau swydd, a chael eu mentora;
- creu gwelliant sylweddol dros amser mewn canlyniadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE).

Disgrifiad/dull:

Darperir gweithgarwch presennol drwy dair elfen:

- Ysbrydoli pobl – cyfres o gyfweiliadau gydag alumni llwyddiannus mewn arddull sioe-sgwrsio agored â chynulleidfâ, er mwyn ysbrydoli myfyrwyr i fod yn weithredol o ran eu gyrfa ac adeiladu hyder gyrfa wrth helpu staff academiaidd i wybod y diweddaraf ar faterion cyflogadwyedd.
- Alumni yn y cwricwlwm – gweithdai cysylltiedig â sector/proffesiwn, adrannau a chwricwlwm sy'n efelychu gweithgareddau gwaith nodweddiadol a galluogi myfyrwyr i ddeall opsiynau gyrfa yn well gan adeiladu hyder mewn gallu a dewis.
- Cyfleoedd gwaith – yn amrywio o waith byr yn ystod y gwyliau i leoliadau am flwyddyn a swyddi i raddedigion.

Mae pedwerydd elfen yn cael ei hystyried sydd yn cynnwys recriwtio alumni i fentora myfyrwyr a graddedigion.

Deilliannau a ragwelir:

- gwelliant sylweddol mewn rheoli gyrfaoedd myfyrwyr; gwneud penderfyniadau a datblygu sgiliau, gyda thystiolaeth canlyniadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE) gwell;
- ymgysylltiad ychwanegol cyflogwyr;
- cyfleoedd ar gyfer prosiectau ymchwil ychwanegol academyddion a chyflogwyr ar y cyd.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Er bod nifer fach o weithdai wedi digwydd a bod cyfleoedd gwaith parhaus ar gael, mae'n rhy gynnar i sylwi ar yr effeithiau ar ganlyniadau Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DHLE).

Nodir y canlyniadau cynnar canlynol:

- mae fideos o rai o'r gweithdai gan brif gyflogwyr alumni wedi cael eu gwneud, i'w defnyddio mewn sesiynau addysg gyrfaoedd;
- mae hyn hefyd yn fanteisiol o ran recriwtio gan fod nifer o'r rhain yn cael eu defnyddio ar wefan diwrnod agored rhithwir y Brifysgol.
- Heriau/cyfleoedd sicrhau neu wella ansawdd penodol a grewyd gan y fenter hon:
- Ymddrinir â materion sy'n cwmpasu lleoliadau heb dâl yn y gweithle er mwyn sicrhau y caiff canllawiau Llywodraeth perthnasol ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol eu cyflawni gan ddarparu cyfleoedd cynhwysol i bawb, heb ystyried, er enghraifft, materion ehangu cyfranogiad.
- Mae cyfleoedd ar gyfer lleoliadau blwyddyn o hyd yn ffitio o fewn y cynllun 'Blwyddyn mewn Cyflogaeth'.
- Cyflawnir yr her o sicrhau cyfatebiaeth effeithiol rhwng ymgeisydd a chyflogwr gan broses cyn-ddethol a gymedrolir.
- Bydd angen i'r elfen fentora sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd ddarparu mecanwaith er mwyn sicrhau ansawdd mentora ac addasrwydd y rhai sy'n cael eu mentora.

Myfyrdod/effaith:

- Mae myfyrwyr wedi ymateb yn dda iawn i gael 'alumni yn y cwricwlwm', a nodwyd cynnydd arwyddocaol mewn hyder ac ymreolaeth bersonol a gwneud penderfyniadau/gweithredu gyrfa, e.e. drwy ymgysylltu'n fwy â chynlluniau lleol blas ar waith a ddarperir trwy GO Wales a chynnydd mewn ceisiadau yn y maes hwn a gyflwynwyd ar gyfer eu gwirio mewn sesiynau unigol y Gwasanaeth Gyrfaoedd.
- Bydd y mentor yn darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer gweithredoedd ymchwil ar y cyd sy'n gysylltiedig â chynlluniau Prifysgol a fodolir eisoes, e.e. Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTPs), Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS) a Mynediad at Radd Meistr (ATM) gan wella incwm Prifysgol ac allbynnau ymchwil o bosib.

Integreiddio cyflogadwyedd i'r cwricwlwm

Prifysgol Aberystwyth (Dyfarniad)

Geiriau Allweddol: gweithredu damcaniaeth yn ymarfer; gwella cyflogadwyedd

Nod:

Mae graddau Seicoleg yn datblygu ystod o sgiliau mewn myfyrwyr. Ar hyn o bryd, mae arolygon cenedlaethol fel yr un a gyflawnwyd gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS), yn adrodd nad yw cyflogwyr yn gwerthfawrogi sgiliau graddedigion Seicoleg ac nad yw myfyrwyr yn cydnabod y sgiliau y maent yn eu datblygu trwy gydol eu graddau yn ddigonol. Nod cyffredinol y menter ar lefel sefydliadol oedd ymgorffori cyfleoedd cyflogaeth i'r cwricwlwm i wella cydymffurfiaeth myfyrwyr a gwella ymwybyddiaeth a datblygiad sgiliau lefel gradd. Ar lefel disgyblaeth, mae'r profiad wedi ei fwydo yn ôl i Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) fel tystiolaeth o fenter i wella cyflogadwyedd. Y prif gynulleidfa darged oedd myfyrwyr, ond roedd goblygiadau ar gyfer sefydliadau allanol hefyd.

Disgrifiad/dull:

- I wneud y gorau o gyfranogiad, ymgorfforwyd cyflogadwyedd i'r cwricwlwm i'w ddysgu/asesu.
- Y nod oedd datrys diffyg cydymffurfiaeth â'r system gwirfoddol Cynllun Datblygu Personol (PDP).
- Cyflwynwyd cyflogadwyedd fel thema fertigol yn y cynllun BSc Seicoleg i gydfynd â gwaith y gwasanaeth Cyngor Gyrfaoedd.
- Ar Lefel 1 cyflwynwyd modiwl deg-credyd ar y Cynllun Datblygu Personol i gefnogi datblygiad y portffolio myfyrwyr a hybu ymgysylltiad â datblygiad sgiliau i wneud y gorau o gyflogadwyedd.
- Ar Lefel 2 cyflwynwyd modiwl 20-credyd, yn cynnwys lleoliad 20-awr yn y gweithle. Gall cyflogaeth fod yn gyflogedig neu'n wirfoddol. Roedd disgwyl i fyfyrwyr gadw dyddiadur adfyfyriol o'u profiad a chwblhau gwaith cwrs i arddangos rôl seicoleg yn ymarferol yn ystod eu lleoliad.

Ar hyn o bryd, mae modiwl Lefel 3 20-credyd mewn 'Ymgynghoriaeth a Menter mewn Seicoleg' yn cael ei ddatblygu.

Deilliannau a ragwelir:

- Rhagwelir tystiolaeth o gynnydd mewn ymgysylltu â'r Cynllun Datblygu Personol yn yr adran yn unol ag ymwybyddiaeth fwy ymysg myfyrwyr o'r angen i ddatblygu ac 'arddangos' eu sgiliau ar gyfer ceisiadau i gyflogwyr yn y dyfodol.
- Yn y dyfodol, bydd yr adran yn dymuno defnyddio ystadegau cyflogadwyedd i feincnodi effeithiolrwydd y menter cyflogadwyedd yn erbyn tueddiadau cenedlaethol ar gyfer graddedigion Seicoleg.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Nid yw hyn yn berthnasol ar hyn o bryd oherwydd camau cynnar datblygiad y fenter:

Heriau/cyfloedd sicrhau neu wella ansawdd penodol a grewyd gan y fenter hon:

Mae'r fenter yn ymarfer codi-ymwybyddiaeth ar gyfer myfyrwyr a chyflogwyr potensial:

- myfyrwyr: adnabod sgiliau a pham/sut i'w datblygu a'u defnyddio;
- cyflogwyr: deall sail sgiliau graddedigion Seicoleg a chynyddu pwysigrwydd 'llythrennedd seicolegol' mewn gweithwyr hyd yn oed os nad ydynt yn gyflogedig yn uniongyrchol ym maes seioleg.

Darparwyd cyfloedd ar gyfer ymgysylltu cymunedol a gweithgareddau trydedd genhadaeth gan y fenter hefyd.

Myfyrdod/effaith:

- Nid yw'r effaith yn nhermau caled eto'n amlwg oherwydd camau cynnar y broses.
- I fyfyrwyr mae tystiolaeth feddal o fwy o ymwybyddiaeth o'r angen i ymgysylltu â'r broses a'r amrywiaeth o sgiliau y maent yn eu datblygu.
- Mae gwneud y sgiliau'n amlwg wedi galluogi i fyfyrwyr deimlo'n fwy hyderus yn eu galluoedd cyfathrebu a thrwy drafod telerau lleoliadau a.a.

Dysgu mewn cyflogaeth: dull gweithio sefydliadol

Prifysgol Bangor University (Sefydliadol)

Geiriau allweddol: work-based learning, foundation degree, work placements, employer engagement, employability skills, GO Wales

Nod:

Mae Prifysgol Bangor yn ymrwymedig i wella ansawdd ei dysgu a'i harferion addysgu yn ogystal â sgiliau cyflogadwyedd ei myfyrwyr. Gwelir dysgu mewn cyflogaeth fel cam allweddol tuag at gyflawni hyn.

Yn unol â'r dyheadau hyn, mae Prifysgol Bangor yn cynnig cyrsiau galwedigaethol i'w myfyrwyr; a modiwlau arbennig wedi'u teilwra er mwyn ateb anghenion graddedigion heddiw a'r tirlun economaidd presennol. Mae rhai o'r cyrsiau a gyfeirir atynt yn yr astudiaeth achos hon yn rhan o'r rhaglen Gradd Sylfaen, a ariennir gan Gronfa Gydgyfeirio Cymdeithasol Ewrop, trwy Lywodraeth Cymru.

Disgrifiad/dull:

- Portffolio Dysgu seiliedig ar waith: Un faes i'w nodi'n arbennig yw ein cefnogaeth barhaus o'r agenda dysgu seiliedig ar waith (WBL). Mae hyn wedi arwain at geisiadau ar gyfer prosiectau sy'n darparu hyfforddiant ar: ffotoneg; ieithoedd modern, cyfieithu a thechnoleg iaith; datblygu theatr ymarferol a chreadigol; a rhwydwaith gweithio perfformiad-uchel. Y rhagamcan yw y bydd ein cyfranogaeth yn y gweithgaredd hwn yn cyflenwi hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) rhwng Lefel 4 a 7 i dros 2,000 o bobl sy'n cymryd rhan dros gyfnod o dair blynedd. Datblygwyd y cynigion Dysgu Seiliedig ar Waith hyn gyda mewnbwn y Cyngorau Sgiliau Sector, busnesau lleol ac academyddion

Prifysgol er mwyn sicrhau eu bod yn 'addas i'r diben' ac yn adlewyrchu anghenion presennol eu sector.

- Portffolio Gradd Sylfaen: Mewn partneriaeth â Choleg Llandrillo, mae Gradd Sylfaen mewn Ynni a Phŵer wedi'i datblygu fel rhan o raglen Gradd Sylfaen Prifysgol Morgannwg a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.
- Lleoliadau gwaith: Mae Prifysgol Bangor yn cynnig lleoliadau i fyfyrwyr o bob disgyblaeth. Mae ei hadran Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn cynnal tîm GO Wales, sy'n darparu lleoliadau gwaith fel rhan o'r cynllun Cymru-gyfan hwn.
- Lleoliadau gwaith coleg-benodol: Yn ogystal â'r lleoliadau a gynigir gan GO Wales, mae Prifysgol Bangor hefyd yn trefnu lleoliadau gwaith coleg-benodol. Mae Ysgol y Gyfraith, er enghraifft, yn trefnu lleoliadau ar ddechrau bob blwyddyn academaidd, ac mae'r myfyrwyr i gyd yn rhydd i ymgeisio amdanynt. Mae'r lleoliadau gwaith hyn yn cynnig cyfle unigryw i fyfyrwyr brofi'r math o yrfaedd y mae ganddynt ddi-ddordeb ynddynt, o bractis cyfreithiwr i lywodraeth leol.
- Lleoliadau gwaith fel rhan o'r cwrs: Mae profiad gwaith yn ffurfio rhan o lawer o gyrsiau israddedig Prifysgol Bangor. Er enghraifft, yn ystod eu cwrs tair blynedd yn astudio BSc Dylunio Cynnyrch, mae disgwyl i fyfyrwyr dreulio 24 wythnos ar leoliad gwaith. Mae'r lleoliadau hyn yn cael eu trefnu mewn blociau wyth-wythnos yn ystod pob blwyddyn ac mae mentoriaid profiadol yn eu goruchwylio, gydag ymweliadau lleoliad gan diwtor cyswllt coleg y myfyrwyr.

Deilliannau a ragwelir:

Gwelliant sgiliau cyflogadwyedd graddedigion, cynnydd hyder yn y gweithle a datblygiad sgiliau 'bywyd go-iawn' sy'n berthnasol i'w disgyblaeth a'u gyrfa posib yn y dyfodol.

Mwy o gydweithrediad rhwng staff sefydliadol a chyflogwyr lleol i ddod â'r Brifysgol a'r gymuned leol at ei gilydd.

Myfyrdod/effaith:

Mae ymrwymiad parhaus Prifysgol Bangor i ddyfodol ei graddedigion yn cael ei gyfoethogi'n fwy gan y gwaith a wneir dan y pennawd 'dysgu mewn cyflogaeth'.

Mae treulio amser yn y gweithle yn cynyddu ymreolaeth, hyder a sgiliau cyflogadwyedd myfyrwyr; gan eu grymuso i gymryd rôl flaengar yn eu datblygiad personol ac academaidd. Mae'r gwelliannau hyn yn cydfynd ag agenda dysgu ac addysgu Prifysgol Bangor ac yn cefnogi gwaith y staff academaidd.

Elevate Cymru: prosiect rhwydwaith gweithio perfformiad uchel Cymru-gyfan

Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (Sefydliadol)

Geiriau Allweddol: dysgu ar ffurf sesiynau blasu byr, prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)

Nod:

Mae prosiect Elevate CYMRU yn rhan o'r rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith a ariennir gan Gronfa Gydyfeirio Cymdeithasol Ewrop, trwy Lywodraeth Cymru. Prosiect Cymru-gyfan yw hwn sy'n cwmpasu pedwar Both AU/AB sy'n darparu hyfforddiant yn ardaloedd Cydyfeirio Cymru. Mae'r pedwar rhwydwaith yn cwmpasu Gogledd Cymru, Gorllewin Cymru, De-Ddwyrain Cymru a Blaenau'r Cymoedd. Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (De-Ddwyrain Cymru) yw'r Both sy'n Arwain.

Mae'r prosiect yn cefnogi busnesau sy'n seiliedig yn ardaloedd Cydyfeirio Cymru gan anelu at uwchsgilio gweithwyr sy'n cymryd rhan (myfyrwyr) gyda'r nod o adeiladu dull gweithio Cymru-gyfan o ran arweinydiaeth a rheolaeth anghenion sgiliau uchel micro-fusnesau, busnesau bach, a busnesau cymhedrol i fawr.

Mae angen i bob Both ymgysylltu â 160 o gwmnïau a darparu modiwlau byr achrededig i 400 o weithwyr sy'n cymryd rhan. Bydd cyfanswm fell o 1,600 o weithwyr yn cael y cyfle i ddysgu sgiliau newydd, a trwy'r broses ddysgu hon yn ychwanegu gwerth at dyfiant a chynaliadwyedd eu cwmni sy'n cyflogi.

Disgrifiad/dull:

Bydd anghenion cwmnïau yn cael eu hasesu, a bydd modiwlau priodol byr ar Lefel 4, 5 a 7 yn cael eu darparu i weithwyr sy'n cymryd rhan. Bydd y cyfranogwyr yn gwneud eu gwaith cwrs yn y gweithle fel arfer, a bydd llawer o gynnwys y cwrs yn cael ei ddarparu drwy ddysgu cyfunol trwy rith-wefan mewnwydd y Brifysgol.

Bydd darlithwyr hefyd yn ymweld â'u myfyrwyr i wneud hyfforddiant wyneb-yn-wyneb ac yna bydd cyfle hefyd i fynychu digwyddiadau rhwydweithio ble y gall y cyflogwr a'r myfyrwr rannu profiadau a thrafod materion a heriau presennol.

Mae cyfle hefyd i ddarparu deunydd y cwrs drwy fodiwl prosiect 'cragen' i alluogi myfyrwyr i wneud ymchwil yn tacllo'r materion sy'n perthyn i berfformiad eu cwmni cyflogi gyda'r nod o gynyddu lefelau cynhyrchedd yn y dyfodol.

Deilliannau a ragwelir:

Mae'r prosiect yn rhedeg am gyfnod cychwynnol o dair blynedd, ac yn ystod y cyfnod hwn rhagwelir y bydd y myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn ennill o leiaf un modiwl deg-credyd a hyd at 60 credyd y myfyrwr. Gall canlyniadau'r modiwlau achrededig yna gael eu defnyddio (trwy'r broses APEL) i alluogi unigolyn i symud ymlaen i wneud naill ai gradd sylfaen neu gradd uwch lefel Feistr. Ar yr un pryd bydd y cyflogwr yn manteisio o gael gweithlu â sgiliau uwch i wneud cyfraniad arwyddocaol at dyfiant a chynaliadwyedd y cwmni cyflogi yn y dyfodol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Gan y bydd y prosiect yn darparu cyrsiau achrededig o fis Ionawr 2012 nid yw'n bosibl ar hyn o bryd i gyflwyno tystiolaeth o'r canlyniadau gwirioneddol.

Heriau/cyfleoedd sicrhau neu wella ansawdd penodol a grewyd gan y fenter hon:

Bydd y deunydd a'r gwaith cwrs academiaidd i gyd a gyflwynir yn cydymffurfio â chanllawiau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) a rheoliadau dyfarnu'r brifysgol neu goleg AB sy'n darparu'r cyrsiau achrededig.

Myfyrddod/effaith :

Nid yw'n bosibl ar hyn o bryd i adlewyrchu ar effaith y prosiect, ond bydd y rhaglen yn darparu mynediad i fyfyrwyr na fydd byth o bosib yn cael y cyfle i ymgysylltu â sefydliad U/AB. Bydd mantais ychwanegol hefyd, sef y bydd cyflogwyr yn gallu rhwydweithio a rhannu problemau a phrofiadau presennol. Drwy uwchsgilio'r gweithlu ar gyfer busnesau yn ardaloedd Cydgyfeirio Cymru dylai fod lefel gyfatebol o dyfiant cwmni, diogelwch a chreu swyddi, a lefelau gwell o gynaliadwyedd ar gyfer pawb sy'n ymwneud â hyn.

Datblygu cymwysterau lefel-uwch ffurfiol ar gyfer cynorthwyrwyr cymorth dysgu sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd a chyfun ym Morgannwg a Chaerdydd

Coleg Caerdydd a'r Fro (Dyfarniad)

Geiriau allweddol: gradd sylfaen, cynorthwyrwyr cymorth dysgu, ysgolion cynradd

Nod:

- i gynnig cymhwyster academiaidd AU ffurfiol ar gyfer cynorthwyrwyr cymorth dysgu (LSAs) sy'n gweithio mewn ysgolion lleol yng Nghaerdydd a'r Fro.

Disgrifiad/dull:

Mae Coleg y Barri wedi cynnig y Dystysgrif OCR ar gyfer Cynorthwyrwyr Cymorth Dysgu ar Lefel 2 a 3 am nifer o flynyddoedd ac mae'r cymwysterau hyn yn parhau i fod yn boblogaidd iawn. Mae'r myfyrwyr i gyd naill ai mewn swyddi llawn-amser neu ran-amser mewn ysgolion cynradd a chyfun lleol ac yn mynychu'r coleg am ddwy neu dair awr bob wythnos o fis Medi i Ebrill i astudio modiwlau sy'n perthyn i gynorthwyo addysgu a dysgu mewn cyd-destun ysgol. Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r galw wedi cynyddu gan fyfyrwyr llwyddiannus a'u cyflogwyr i ddatblygu'n broffesiynol yn y swydd i ennill cymwysterau uwch. Er mwyn hwyluso'r galw mae'r Coleg, mewn partneriaeth ag Ysgol Addysg Prifysgol Cymru Casnewydd, wedi datblygu Gradd Sylfaen mewn Cymorth Dysgu. Astudir y cymhwyster hwn dros ddwy flynedd gyda'r dystiolaeth i gyd ar gyfer pob modiwl a'r traethawd hir terfynol yn cael eu casglu o brofiad yn y swydd.

Deilliannau a ragwelir:

- Mae myfyrwyr yn ymgymhwyso ar Lefel 4/5 sy'n eu galluogi i ymgeisio ar gyfer safleoedd Cynorthwywyr Cymorth Dysgu Lefel 4, sydd yn gymorth ariannol i'r ysgol gan fod y Cynorthwydd Cymorth Dysgu yn gallu gwneud dyletswyddau Cynllunio, Paratoi ac Asesu.
- Gyda chyflwyniad y cyfnod sylfaen, mae angen i Gynorthwywyr Cymorth Dysgu ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ar lefel uwch er mwyn cyfrannu at arsylwadau ac asesiadau.
- Mae datblygiad y rhaglenni hyn yn darparu cynorthwywyr cymorth cymwys ar y lefel hon.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Cyflawnwyd gradd sylfaen gan y garfan cyntaf o fyfyrwyr ym mis Mai 2011 ac o fis Medi 2011 mae BA (Anrh) atodol yn ei lle mewn Addysg Cynorthwywyr Cymorth Dysgu er mwyn i fyfyrwyr llwyddiannus gwblhau gradd lawn.

Mae pump o fyfyrwyr sy'n gyflogedig mewn ysgolion lleol sydd yn astudio'r BA yn bresennol gyda chefnogaeth lawn eu hysgolion, a byddent yn graddio ym mis Mehefin 2012. Mae pob myfyriwr BA yn cwblhau astudiaeth ymchwil annibynnol o fewn eu hysgolion sy'n canolbwyntio ar wella ysgolion. Mae myfyrwyr gradd sylfaen hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil, gyda'r mwyafrif o ysgolion yn gweithredu'r argymhellion a wneir o ganlyniad i'w casgliadau. O fis Hydref 2011 cynigwyd dyrchafiad i fyfyrwyr llwyddiannus ar y cwrs gradd sylfaen gan eu cyflogwyr o ganlyniad uniongyrchol i'w cymwysterau lefel uwch.

Myfyrdod/effaith:

Mae Cynorthwywyr Cymorth Dysgu gyda'r gradd sylfaen yn awr yn cefnogi cynorthwywyr llai profiadol yn eu gweithleoedd. Rhoddir rolau awtonomaidd i lawer ohonynt mewn amrywiaeth o feysydd cwricwlwm i gefnogi plant a staff. Mae Cynorthwywyr Cymorth Dysgu Lefel 4 yn mynychu cyfarfodydd staff i ledaenu gwybodaeth berthnasol i'r tîm Cynorthwyr Cymorth Dysgu cyfan. Bydd y Cynorthwywyr Cymorth Dysgu lefel-uwch yn mynychu hyfforddiant ychwanegol mewn cyflogaeth i weithredu mentrau trwy gydol yr ysgol. Mae'r gradd sylfaen yn darparu cyfle i'r Cynorthwydd chwarae rôl fwy mewn cefnogi addysgu a dysgu.

Profiad ymchwil dilys i fyfyrwyr: Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd (CUROP)

Prifysgol Caerdydd (Sefydliadol)

Geiriau allweddol: ymchwil, Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd (CUROP), ymchwil israddedigion, interniaeth

Nod:

- i roi blas o ymchwil 'byw' go iawn i fyfyrwyr a dealltwriaeth o'r amgylchedd ymchwil academiaidd;
- i fyfyrwyr wneud cyfraniadau gwirioneddol i wybodaeth a phrofi gweithgaredd lledaenu gwybodaeth academiaidd;
- i helpu myfyrwyr i wneud dewis gwybodus ar ymchwil ôl-raddedig ac academiaidd yn y dyfodol o ganlyniad i'w profiad.

Disgrifiad/dull:

Mae Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd (CUROP) yn darparu cronfa o arian ar gyfer is-raddedigion er mwyn iddynt gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil a arweinir gan staff yn ystod gwyliau'r Haf. Y nod yw rhoi blas o ymchwil 'byw' go iawn i fyfyrwyr; gwneud cyfraniadau i wybodaeth a phrofi gweithgaredd lledaenu gwybodaeth academiaidd. Mae Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd ar gael i bob disgyblaeth trwy broses cynigion cystadleuol. Rhaid i gynigion prosiect arddangos fod cyfraniad clir ac ystyrlon y gall myfyriwr ei wneud a bod y myfyriwr yn mynd i dderbyn goruchwyliaeth briodol. Caiff y cynigion eu gwerthuso gan banel sy'n cynnwys y Dirprwy Is-Gangellorion ar gyfer Ymchwil ac Addysg a Myfyrwyr; gydag aelodau eraill o'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu a swyddogion etholedig Undeb y Myfyrwyr. Cyfrifoldeb goruchwylwyr y prosiect yw recriwtio myfyrwyr i brosiectau (yn gyffredinol, myfyrwyr rhwng eu hail a'u trydydd flwyddyn).

Mae'r Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd yn darparu ariannu i is-raddedigion wneud chwech i wyth wythnos o ymchwil ar brosiectau staff, fel arfer yng ngwyliau'r Haf, gyda'r bwriad o roi profiadau gwirioneddol i fyfyrwyr o ymchwil academiaidd. Yn ystod y blynyddoedd cychwynnol, clustnodwyd £25,000 y flwyddyn o arian y Brifysgol ac mae hyn yn awr wedi cynyddu i £60,000 y flwyddyn.

Deilliannau a ragwelir:

Y canlyniadau a ragwelir oedd y bydd y cymunedau ymchwil ac addysg yn dod at ei gilydd trwy fecanwaith a fydd yn fanteisiol iawn i'r myfyrwyr ac i'r ymchwil. Y gobaith oedd, trwy ymgymryd â Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd, y bydd mwy o fyfyrwyr yn datblygu diddordeb mewn dilyn gyrfa mewn ymchwil academiaidd ac y bydd Caerdydd yn cefnogi tyfiant rhifau ymchwil ôl-raddedig nid yn unig yn fewnol, ond hefyd trwy gydol addysg uwch.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae dros 150 o fyfyrwyr wedi bod yn rhan o Raglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd ers y peilot yn 2007. Mae'r cynllun wedi cael ei werthuso bob blwyddyn ers y peilot cychwynnol ac mae hyn yn barhaus. Mae adborth gan fyfyrwyr a staff sydd yn ymwneud a'r cynllun yn gadarnhaol iawn:

Mwynheuais y profiad o Raglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdyddyn fawr, ac rydw i'n teimlo y cafodd effaith arwyddocaol ar fy mhenderfyniad i ymgeisio i wneud Doethuriaeth eleni.

Roedd yn ddefnyddiol yn bersonol gan ei fod yn rhoi blas o ymchwilio i mi ar lefel uwch. Roedd digon o ryddid i ni gael profiad llawn ond roeddem ni'n gwybod bod help ar gael gan ein goruchwylwyr os oeddem ni'n teimlo'n ansicr; a oedd yn golygu ein bod ni'n fwy hyderus. Mae e wedi rhoi hyder i mi yn fy ngallu fy hun, ac yn fy ngalluoedd gweithio mewn tîm, ac wedi caniatáu i mi ddilyn fy niddordeb yn y pwnc.

Roedd y profiad Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd yn wych gan ei fod yn rhoi cyfle i mi ddysgu mwy am agwedd ymchwil optometreg. Rhoddodd giplowg i mi hefyd o sut waith y mae gwaith ymchwil. Mae'r profiad hwn wedi hybu fy niddordeb i weithio ym maes ycmwhil yn y dyfodol os yn bosib.

Mae staff yn manteisio o fewnbwn gwerthfawr i brosiectau ymchwil ac yn adrodd y gall y cynllun fod yn asiant ar gyfer creu cydweithredu rhyngddisgyblaethol ac ar gyfer sefydlu sylfaen ar gyfer ceisiadau am ragor o ariannu ymchwil:

Heb y gwaith a gwblhawyd ganddi, ni fyddwn yn awr yn cynllunio cais grant mawr yn seiliedig ar brosiect Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd – yn syml, ni fyddwn wedi gallu ymroi 8 wythnos o waith llawn-amser i ddatblygu'r gronfa ddata fel peilot.

Mae myfyrwyr a'u goruchwylwyr prosiect yn credu'n gryf fod y profiad Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd yn rhoi mewnwelediad i fyfyrwyr i'r broses ymchwilio ac yn datblygu eu sgiliau ymchwilio. Mae prosiectau Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd wedi galluogi myfyrwyr i gyfrannu at gyhoeddiadau academiaidd, cynadleddau rhyngwladol a gweithgareddau lledaenu gwybodaeth ehangach. Mae dysgu mewn cyflogaeth yn galluogi'r myfyrwyr i gael mewnwelediad gwirioneddol i yrfa ymchwil academiaidd, a rhoddir cyfle i bob myfyriwr gyflwyno eu gwaith ar ffurf poster ar Ddiwrnod Cyflwyno Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd a gynhelir bob blwyddyn.

Myfyrdod/effaith:

Mae Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd wedi goresgyn ein disgwyliadau. Nid oes unrhyw amheuaeth y bydd myfyrwyr a staff yn manteisio o'r cynllun hwn. Yr agwedd fwyaf gwerthfawr yw'r cyffro ar gyfer ymchwil a gynhrychir mewn myfyrwyr sy'n cael y cyfle i fod yn rhan o brosiectau gwirioneddol. Y gobaith yw y bydd rhai ohonynt yn cael eu hysbrydoli i fod yn ymchwylwyr yn y dyfodol.

Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil

Mae gweithredu Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd wedi goresgyn disgwyliadau, a arddangosir gan gefnogaeth barhaus y Brifysgol sydd yn sicrhau bod y cynllun yn dal i fod ar gael. Fodd bynnag, mae'r mater allweddol o'r nifer gyfyngedig o fyfyrwyr y gellir eu cynnal gan y cynllun, gyda'r angen ar gyfer cronfa ariannol sylweddol er mwyn cynnal 45 o fyfyrwyr bob Haf. Gellir cyfyngu hyn gan ariannu allanol ond mae hyn bob amser yn ansicr; ac mae nifer o ffynonellau wedi diflannu dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn fewnol, fodd bynnag, mae Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd yn parhau i gryfhau. Gwelir cefnogaeth uniongyrchol yr Is-Ganghellor; sydd yn mynychu Diwrnod Cyflwyno Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd ac yn siarad â phob myfyriwr; fel mantais fawr i'r cynllun. Y cam nesaf yw ceisio mesur faint o ariannu ymchwil ychwanegol sydd yn dod i'r Brifysgol o ganlyniad i'r gwaith preimio a wneir gan fyfyrwyr Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Is-raddedigion Caerdydd.

Cefnogi e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus

Prifysgol Caerdydd (Sefydliadol)

Geiriau allweddol: e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, e-ddysgu, cyflenwi ar-lein, cyflenwad hyblyg

Nod:

- i ddarparu arbenigedd yn natblygiad cyflenwad ar-lein dysgu e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus;
- i alluogi staff i ddeall yr ystod o opsiynau sydd ar gael ar gyfer dysgu ar-lein, ac i hyfforddi staff fel eu bod yn gallu datblygu dysgu e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer nhw eu hunain;
- i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso model newydd o gyflenwi cymorth ar gyfer staff yn eu e-ddysgu a'u datblygiadau amlgyfrwng addysgol.

Roedd y menter ar gael drwy broses cynigion cystadleuol, trwy gydol y sefydliad i unrhyw gwrs a oedd yn cyflenwi e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus.

Disgrifiad/dull:

Dechreuodd y prosiect e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus ym mis Ionawr 2010, a fe'i sefydlwyd er mwyn cynnig cefnogaeth i bawb o fewn y Brifysgol a oedd yn cyflawni e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, fel cymorth gyda datblygiad a gwella eu darpariaeth e-ddysgu ar gyfer e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus.

Roedd un o nodau allweddol y prosiect yn ymwneud â datblygu a gweithredu model newydd o gymorth, gyda'r staff yn cynnig ar gyfer amser datblygydd e-hyfforddi arbenigol yn hytrach na chronfa ariannol uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu bod unrhyw ddatblygiad o e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus yn alinio gyda systemau'r Brifysgol ac yn hawdd i'w gynnal, gan sicrhau defnydd mwy cynaliadwy o adnoddau. Roedd y datblygydd e-hyfforddi yn cynorthwyo staff wrth iddynt ddiffinio anghenion eu cynnig prosiect, gan ddarparu prosiectau cyraeddadwy o ystyried yr adnoddau, sgiliau ac amser a oedd ar gael. Roedd cynigwyr hefyd yn gorfod arddangos sut oedd eu hallbynnau neu ddull yn gallu cael eu hail-ddefnyddio ar gyfer cyfleoedd dysgu eraill. Roedd cynhyrchu canllawiau a hyfforddiant ar y datblygiadau yn safonol ar gyfer pob prosiect, fel bod staff yn gallu deall yn glir beth oedd wedi cael ei gyflawni i'w galluogi i barhau â datblygiadau yn y dyfodol gydag anghenion tebyg i'w hunain.

Deilliannau a ragwelir:

Y canlyniadau a ragwelir oedd bod argaeledd mwy o e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus o fewn y Brifysgol, bod darpariaeth e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus presennol yn gwella, a bod nifer fwy o enghreifftiau o ymarfer da o ran cyflawniad ar-lein i bobl eraill ddilyn a dysgu ohonynt. Bydd y model newydd o gefnogaeth yn cael ei asesu i weld p'un a oedd y dull hwn yn gallu gweithio ar gyfer datblygiadau e-ddysgu ar lefel is-raddedig ac ôl-raddedig, gyda newid posibl i fodolau ariannu presennol o fewn y Brifysgol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o weithredu'r prosiect e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, mae deg prosiect wedi cael eu cwblhau gyda phedwar o brosiectau pellach yn rhedeg hefyd. Mae'r prosiectau wedi cyhyrchu deunydd enghreifftiol sydd wedi cael ei ddefnyddio i ddenu sylw at y cyfleoedd sydd ar gael i'r Brifysgol trwy ddefnydd e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus.

Gwerthuswyd y prosiect e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus yng Ngwanwyn 2011 ac awrymwyd yn ei chasgliadau bod y model hwn o gymorth ar gyfer e-ddysgu mewn e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus wedi bod yn llwyddiannus, ac nid yn unig yn briodol ond hefyd yn ddefnyddiol iawn ac o gymorth mawr i'r partneriaid academiaidd y mae'r datblygydd e-hyffordi wedi gweithio â nhw i ddabtygu e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus. Mae'r canlyniadau'n dangos yn glir y datblygydd y prosiectau mewn ffordd mwy na boddhaol ar gyfer cynigywyr prosiect, a bod rhagor o gymorth o'r math hwn yn cael ei werthfawrogi, gyda'r mwyafrif yn cytuno y dylai'r model hwn o gymorth fod ar gael yn eang yn y Brifysgol.

Roedd nifer o negeseuon pwysig i'w cael o weithrediad y prosiect e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus. Roedd pob prosiect e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus yn unigryw ac roedd ganddynt anghenion gwahanol eu hunain, gyda'r canlyniadau yn dangos fod gan bob arweinydd prosiect ymateb gwahanol iawn pan ofynnwyd iddynt beth oeddent yn dymuno ei gyflawni gyda'u prosiect a pha enghreifftiau oedd ganddynt o ail-ddefnyddio deunyddiau a gwybodaeth a ddysgwyd yn ystod eu prosiect. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod yn anodd i hyfforddi'r staff arbenigol yn y pwnc mewn defnyddio set o sgiliau technoleg e-ddysgu gan ddisgwyl y gallent wedyn ddod o hyd i'r dull gorau ar gyfer yr anghenion eu hunain. Gall hyn helpu i egluro pam fod y dull hwn o gymorth wedi'i groesawu cymaint gan yr arweinyddwyr prosiect i gyd.

Gwnaed sylwadau amrywiol am werth cael datblygydd e-hyffordi wrth law gan yr arweinyddwyr prosiect, sy'n helpu i sicrhau bod dabtlygiadau e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus yn briodol ac o ansawdd uchel. Mae hyn yn awgrymu bod partneriaeth synergaidd rhwng datblygydd ac academydd, yn ddull effeithiol o weithio o ran datblygu cyrsiau e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus. Mae'r casgliadau hefyd yn dangos fod academyddion yn gwerthfawrogi'r cefnogaeth, cyngor a chymorth y maent yn derbyn gan brosiect fel hyn a'r model hwn o gefnogaeth.

Myfyrdod/effaith:

Darparwyd neges gadarnhaol i'r Brifysgol gan gasgliadau'r gwerthusiad, ac arddangoswyd cyflawniad llwyddiannus nodau'r prosiect e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus hefyd. Rhoddwyd y cyfle i ysgolion a oedd yn darparu e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus i fanteisio'n uniongyrchol o'r gefnogaeth, ac mae llawer wedi parhau i ddatblygu hyfforddiant ar-lein ychwanegol gan ddefnyddio'r canllawiau cychwynnol a'r hyfforddiant gan y datblygydd e-hyddorddiant. Mae'r prosiect e-Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus wedi helpu'r Brifysgol ehangach i ddeall sut y gellir defnyddio'r model gwahanol hwn o gefnogaeth yn effeithiol ar gyfer datblygiadau e-ddysgu. Mae'n ymddangos fod hyn wedi bod yn fwy effeithlon a chost-effeithiol na dosbarthu ariannu uniongyrchol i ysgolion ar gyfer dabtlygiadau e-ddysgu, a chwblhawyd mwy o brosiectau na fyddai'n bosib gydag ariannu uniongyrchol. Defnyddiwyd systemau neu feddalwedd y Brifysgol ar gyfer y dabtlygiadau i gyd, felly bydd cynnal a chadw parhaus a chynaliadwydd yr allbynnau'n bosibl.

Pwynt olaf i'w ystyried yw'r diffyg cyflenwad o bobl i gyflawni'r rôl o 'ddabtlygydd e-hyfforddi'. Mae'n anodd iawn i ddod o hyd i bobl gyda sgiliau technegol a dealltwriaeth o egwyddorion addysgol/andragogaethol, sydd yn gallu gweithredu'r wybodaeth hon mewn ystod o ddisgyblaethau pwnc. Mae llawer o'n arweinyddion prosiect wedi bod mor ddiolchgar i gael rhywun gyda'r set o sgiliau hwn, nes eu bod wedi cynnig cronfa o arian i 'brynu allan' y datblygydd e-hyfforddi i weithio ar brosiectau eraill gyda nhw!

Datblygu modiwlau Dysgu Gweithredol o fewn graddau Sylfaen yng Ngholeg Llandrillo

Coleg Llandrillo (Sefydliadol)

Geiriau allweddol: dysgu seiliedig ar waith, cysylltu theori ac ymarfer, cyfranogiad cyflogwyr

Nod:

Mae pob myfyriwr rhestredig ar gyrsiau graddau sylfaen Coleg Llandrillo sydd wedi'u dilysu trwy Brifysgol Cymru (yn gychwynnol) a Phrifysgol Bangor (yn bresennol) yn astudio modiwlau Dysgu Gweithredol fel rhan integrol o'u rhaglen astudio. Nod y modiwlau yw darparu myfyrwyr â'r cyfle i ddadansoddi a myfyrio ar sut y gallent weithredu'r wybodaeth a sgiliau newydd y maent wedi eu caffael yn y gweithle a sut y mae hyn yn fanteisiol iddynt a'u cyflogwyr.

Disgrifiad/dull:

O fewn y rhaglenni gradd sylfaen i gyd, mae pedwar modiwl sy'n cynnwys yr elfen o ymarfer galwedigaethol sy'n canolbwyntio ar y gweithle: un o anghenion pob gradd sylfaen. Mae dysgwyr yn gwneud nifer o dasgau cysylltiedig â chyflogaeth, yn ôl trafodaethau â chyflogwyr a staff y Coleg, ac yn cofnodi'r oriau a dreulir yn benodol ar y tasgau hynny, sydd wedyn yn cael eu monitro a'u hasesu gan diwtoriaid neilltuedig gyda chymorth cyflogwyr lleol. Teitl y pedwar modiwl seiliedig ar gyflogaeth yw 'Dysgu Gweithredol' ac mae angen i fyfyrwyr adlewyrchu ar eu hymarferion cyflogaeth a gwneud cysylltiadau rhwng modiwlau sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth a modiwlau sy'n seiliedig ar gyflogaeth. Ysgrifennir canlyniadau dysgu yn generig fel y gellir casglu a chynhyrchu tystiolaeth o fewn y meysydd cwricwlwm.

Deilliannau a ragwelir:

I'r dysgwyr; mae asesiad, sydd ar ffurf portffolios, dyddiaduron, a chyfrifon adlewyrchiadol, sy'n arwain at ganlyniadau sydd yn eu galluogi i:

- adnabod sut y mae gwybodaeth a sgiliau newydd wedi gwella eu heffeithiolrwydd yn y gwaith;
- ymgysylltu'n fwy gwybodus ac effeithiol gyda phrosesau yn y gwaith;
- gwneud cyfraniadau gwell at ymarferion gweithio;
- integreiddio dysgu gyda'r ystod lawn o sgiliau cyflogadwyedd.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae portffolios, dyddiaduron a chyfrifon adlewyrchiadol dysgwyr yn barod yn arddangos gwerth gwybodaeth a sgiliau newydd i ddysgwyr yn y gwaith. Mae'r modiwlau'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr adnabod sut y mae pob modiwl academaidd yn effeithio ar eu hymarfer ac yn gwella eu perfformiad.

Mae adborth gan fyfyrwyr a chyflogwyr ar fodiwlau Dysgu Gweithredol yn gadarnhaol gan fod y ddwy garfan yn cydnabod gwerth amser sy'n cael ei benodi'n glir o fewn rhaglen astudio, lle bod angen i ddysgwyr ganolbwyntio ar sut y mae dysgu yn gwella perfformiad mewn cyflogaeth.

Heriau/cyfleoedd sicrhau neu wella ansawdd penodol a grewyd gan y fenter hon:

Mae digwyddiadau cymhwyso yn cyflwyno heriau. Mae paneli yn aml yn aneglur o ran sut y mae'r modiwlau Dysgu Gweithredol yn gweithredu mewn perthynas â dysgu ac asesu.

Myfyrdod/effaith:

Mae'r modiwlau Dysgu Gweithredol yn crynhoi agwedd y Coleg at ddysgu seiliedig ar waith o fewn graddau sylfaen. Mae dulliau gweithio cyffredin y Coleg yn sicrhau bod cyfleoedd cyfartal yn cael eu cynnig i ddysgwyr ar draws y meysydd cwricwlwm mewn perthynas i asesu canlyniadau dysgu. Datblygiad diweddar oedd sefydliad tiwtorau arweiniol modiwlau ar gyfer set o fodiwlau cyffredin yn cynnwys Dysgu Gweithredol. Pwrpas y tiwtoriaid hyn yw annog rhannu adnoddau a lledaenu ymarfer da. Mae presenoldeb Moodle wedi'i sefydlu gyda thiwtoriaid Dysgu Gweithredol wedi'u hychwanegu fel cyfranogwyr.

Datblygu graddau sylfaen

Prifysgol Glyndŵr (Sefydliadol)

Geiriau allweddol: graddau sylfaen, cydweithrediad, yn ôl y galw, ymgynghoriad â Chynghorau Sgiliau Sector

Cynulleidfa darged:

Mae'n cynulleidfa darged yn cynnwys y rheiny a gyflogir yn y sectorau neu alwedigaethau penodol canlynol:

- diwydiannau neu alwedigaethau creadigol;
- diwydiant gweithgareddau awyr agored;
- diwydiant ceir.

Disgrifiad/dull:

Mae HEFCW wedi rhoi dyraniad o'r gronfa arian Cymru'n Un ar gyfer datblygu, hyrwyddo a chyflenwi darpariaeth gradd sylfaen rhan-amser newydd. Yn ein rhanbarth, Gogledd a Chanolbarth Cymru, Prifysgol Glyndŵr yw'r sefydliad sydd wedi'i nodi fel yr arweinydd ar gyfer graddau sylfaen. Rydym yn cynnwys cyflogwyr a Chynghorau Sgiliau Sector fel rhan o'r broses datblygu i sicrhau bod y cymwysterau yn berthnasol i anghenion cyflogwyr; eu gweithwyr a'r sector priodol. Mae'r rhaglen gradd hon yn rhan-amser ac wedi'i thargedu tuag at y rheiny mewn cyflogaeth sy'n dymuno ennill cymwysterau lefel-uwch i adlewyrchu eu sgiliau a'u profiad. Bydd cyflenwad yn cychwyn ym mis Medi 2012, gydag ail dderbyniad yn 2013, a bydd y rhaglen gradd yn rhedeg dros ddwy flynedd calendr.

Mae'r graddau sylfaen yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth â darparwyr addysg eraill. Mae'r rhai a arweinir gan Brifysgol Glyndŵr fel a ganlyn:

- Technoleg Creadigol a Chyfyngau Digidol (mewn partneriaeth â Choleg Iâl, Coleg Menai, Coleg Powys a Phrifysgol Bangor);
- Hamdden Awyr Agored a Rheolaeth (mewn partneriaeth â Choleg Llandrillo, Coleg Menai, Coleg Powys, a Choleg Harlech);
- Technoleg Cerbydau Hybrid (mewn partneriaeth â Choleg Llandrillo, Coleg Iâl, Coleg Glannau Dyfrdwy, a Choleg Powys).

Deilliannau a ragwelir:

Bwriad datblygiad y gradd sylfaen yw cynhyrchu graddedigion gyda chymwysterau sydd yn eu helpu i ddatblygu yng ngyrfa eu dewis a gwella perfformiad busnes eu cyflogwyr.

Tystiolaeth ddeilliannau gwirioneddol:

Mae dros 140 o fyfyrwyr yn awr wedi graddio gyda graddau sylfaen.

Heriau/cyfleoedd sicrhau ansawdd neu gwella ansawdd penodol a grewyd gan y fenter hon:

Mae dulliau cyflenwad annhraddodiadol ac asesiad graddau sylfen wedi bod yn heriol.

Myfyrdod/effaith:

Mae cyflogwyr a Chynghorau Sgiliau Sector wedi cydnabod priodoledd graddau sylfaen ar gyfer eu gweithlu, a chydweithrediad cynyddol rhwng y sefydliad, cyflogwyr a Chynghorau Sgiliau Sector.

Adnoddau Addysgol Agored TELSTAR

JISC RSC Cymru

Mae'r crynodeb hwn gan JISC RSC Cymru yn dod o adroddiad ar brosiect manwl ganstaff Prifysgol Fetropolitan Caerdrdd (UWIC yn flaenorol) fel rhan o Raglen Gapsiti Adeiladu Cymru JISC. Mae'r adroddiad prosiect llawn ar gael ar: <http://www.jisc.ac.uk/whatwedo/programmes/bcap/cardiff.aspx>; mae'n cynnwys cyfanswm o bump astudiaeth achos, cyfeiriadau a chysylltiadau niferus i ymchwil mewn i ddysgu mewn cyflogaeth/dysgu seiliedig ar waith. Byddai'n werthfawr felly i unrhyw un sy'n dymuno archwilio defnydd effeithiol technoleg i wella dysgu mewn ac ar gyfer cyflogaeth, a phynciau tebyg.

Geiriau allweddol: dysgu â chymorth technoleg, datblygu'r gweithlu, dysgu seiliedig ar waith, dysgu mewn cyflogaeth, dysgu ar gyfer cyflogaeth, Adnoddau Addysgol Agored [OER]

Cyflwynwyd y fenter: trwy gydol y sefydliad ar draws nifer o raglenni galwedigaethol yn cynnwys y rheiny mewn Ysgol Reolaeth Caerdydd, Canolfan Diwydiant Bwyd UWIC, a'r Gymdeithas Myfyrwyr Hŷn.

Nod:

Mae prosiect Adnoddau Addysgol Agored TELSTAR yn un o gyfres o is-brosiectau a gynhelir gan UWIC dan y faner o WELLA, cyfraniad y Brifysgol at Rhaglen Gapasiti Adeiladu Cymru JISC 2010-11. Nod TELSTAR oedd adnabod ffyrdd o ddarparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer dysgwyr seiliedig yn y gwaith ar raglenni galwedigaethol, gan ddefnyddio adnoddau ar-lein ac arbenigedd a ddabtylgwyd yn flaenorol drwy brosiect JISC mewn sefydliad arall.

Roedd y staff a'r myfyrwyr a oedd yn ymwneud â'r prosiect wedi eu lleoli mewn amrywiaeth o raglenni galwedigaethol. Defnyddiwyd yr adnoddau ar draws nifer o brosiectau GWELLA yn cynnwys:

Ffolio-gwê Profiad Trwy Weithio, Cymdeithas Myfyrwyr Hŷn Ar-lein a Online Mature Students Society and Rhwydwaith Dysgu Seiliedig ar Waith 'Foodies' UWIC.

Disgrifiad/dull:

Drwy amrywiaeth o ddulliau fel yr Arolwg Tynnu yn Ôl Myfyrwyr, roedd staff UWIC wedi nodi angen i ddatrys materion a oedd yn achosi i rai o'r myfyrwyr ar raglenni galwedigaethol brofi anawsterau gydag elfen seiliedig ar waith eu cwrs, nes bod rhai ohonynt hyd yn oed yn rhoi'r gorau i'r cwrs yn gyfan gwbl.

Nodwyd bod myfyrwyr wedi wynebu problemau yn perthyn i:

disgwyliadau'r gweithle; meistrolï'r sgiliau sydd angen i adlewyrchu ar ddysgu yn y gweithle (er enghraifft, gofynion cwblhau logiau ac adroddiadau ar gyfer asesiad); a phrofi arwahanu o'u cyfoedion ac arweiniad tiwtoriaid. I oresgyn y problemau hyn, roedd angen cymorth ar-lein ychwanegol. Dyma ble'r oedd Rhaglen Gapasiti Adeiladu Cymru JISC yn ddefnyddiol.

Y syniad y tu ôl i Gapasiti Adeiladu Cymru (rhan o Raglen Gapasiti Adeiladu Cymru JISC ehangach) oedd y bydd sefydliadau yn: 1) nodi mater strategol allweddol sydd angen ei ddatrys; 2) canfod adnoddau a ffynonellau o arbenigedd a ariennir yn gyhoeddus sy'n bodoli eisoes (fel y rheiny a ariennir drwy brosiectau JISC) a fydd o bosib yn gymorth i ddatrys y mater hwnnw; a 3) gweithredu'r adnoddau/arbenigedd hynny er mwyn datrys y mater mewn cwestiwn.

Unwaith yr oedd UWIC wedi nodi darpariaeth cymorth dysgwyr seiliedig yn y gwaith fel un o'u blaenoriaethau, aethant ati i ddod o hyd i adnoddau priodol. Y canlyniad oedd casgliad o Adnoddau Addysgol Agored a grewyd ym Mhrifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn fel rhan o'u prosiect TELSTAR a ariannwyd gan JISC yn 2009-2011. Mae rhagor o wybodaeth am waith gwreiddiol TELSTAR ar wefan y prosiect ac ar wefan JISC.

Mae Adnoddau Addysgol Agored (OERs) wedi'u dylunio i'w rhannu. Mae'r wefan

OER Commons yn cynnig y diffiniad canlynol: "Mae Adnoddau Addysgol Agored (OER) yn ddeunyddiau addysgu a dysgu sydd ar gael yn rhydd ar-lein i bawb eu defnyddio, p'un a ydych yn hyfforddwr, myfyriwr neu'n hunan-ddysgwr." Dros y flwyddyn ddiwethaf maent wedi dechrau deny mwy o ddiddordeb gan y gymuned academaidd, yn rhannol oherwydd Menter OER Academi ISC a gwaith JORUM, ystorfa deunyddiau addysgu a dysgu'r DU.

Roedd yr Adnoddau Addysgol Agored a werthuswyd gan UWIC yn cynnwys 17 o bynciau, er enghraifft: myfyrdod; delio â phobl anodd yn y gwaith; a chymhelliant yn y gwaith (gweler adroddiad llawn y prosiect am restr llawn). Roeddent yn cynnwys nid yn unig deunyddiau testun ond hefyd amlgyfrwng, gweithgareddau dysgu a chyflwyniadau i'w teilwra. Roedd yr adnoddau yn wreiddiol ar DVD er mwyn i staff eu gwerthuso cyn i fyfyrwyr eu defnyddio. Dewisodd rai o'r tiwtoriaid i ddefnyddio'r deunyddiau fel yr oeddent, tra bod eraill yn dewis eu haddasu yn ôl eu gofynion.

Deilliannau a ragwelir:

Nod y prosiect oedd canfod adnoddau o ansawdd y gellir eu hail-ddefnyddio i gefnogi dysgwyr seiliedig yn y gwaith yn ystod lleoliadau gan arbed amser staff (ystyriwyd deunyddiau e-ddysgu o ansawdd uchel i fod yn ddrud ac yn cymryd llawer o amser i'w datblygu o'r cychwyn).

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Adroddwyd rhai pryderon cychwynnol o safbwynt y staff gan y prosiect ynglŷn â defnyddio adnoddau a grewyd rhywle arall. Er enghraifft, roedd pryderon ynghylch IPR ac ansawdd ymddangosiadol yr adnoddau a grewyd yn allanol. Tra bod y rhain yn rwystrau y sylwir arnynt yn gyffredin o ran defnydd adnoddau trydydd parti, datblygwyd gwerthfawrogiad dyfnach gan staff UWIC o faterion hawlfraint, ac chynyddwyd hyder yn ansawdd y deunyddiau. Yn bwysig, roedd staff yn gwerthfawrogi'r ffaith fod defnyddio Adnoddau Addysgol Agored yn arbed amser iddynt ac yn ysbrydoli arloesedd addysgol.

Cafwyd ymateb cadarnhaol gan y tiwtoriaid a myfyrwyr a ddefnyddiwyd yr adnoddau, gyda myfyrwyr yn adrodd cynnydd yn eu hyder. I adeiladu ar y llwyddiant hwn, mae Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn datblygu eu hystorfa eu hun o ddeunyddiau i gefnogi dysgwyr seiliedig yn y gwaith, gan dynnu o hystorfeydd allanol yn cynnwys JORUM ac E-Evolve UCLAN. Bydd myfyrwyr yn cael mynediad i'r deunyddiau trwy fodiwl Bwrdd Du.

Myfyrdod/effaith:

Mae adroddiad terfynol y prosiect yn cynnwys manylion effaith (adran 1.3 a pp. 48-49). Mae'r dyfyniadau canlynol yn dod o'r adroddiad hwnnw:

Mae'r adnoddau hyn o ansawdd ardderchog, yn ddiweddar ac yn becyn cymorth gwerthfawr ar gyfer dysgwyr yn ystod eu pontio i'w rôl/amgylchedd lleoliad gwaith newydd. Roedd yr adnodd Myfyrio yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer gwella dealltwriaeth myfyrwyr o'r broses myfyrio ac ar gyfer cynnig canllawiau ar ysgrifennu adfyfyriol – sgil allweddol sydd angen i gwblhau'r modiwl. Mae'r adnoddau yn helpu myfyrwyr i fod yn fwy effeithiol yn y gweithle drwy reoli eu disgwyliadau o ddysgu seiliedig ar waith, cefnogi eu pontio i'r gwaith a gwella eu cyflogadwyedd a'u sgiliau rheoli. Bydd hyn hefyd yn fanteisiol i gyflogwyr gan y bydd myfyrwyr yn datblygu mwy o sgiliau, ac yn fwy cynhyrchiol a hyfedrus o fewn y sefydliad.

Oherwydd gofynion cydgyssylltu a chefogi niferoedd mawr o leoliadau gwaith myfyrwyr, ychydig iawn o amser sydd gen i'n weddill. Drwy ddefnyddio'r adnoddau TELSTAR, llwyddais arbed amser gan nad oedd angen i mi ddatblygu rhai fy hun o'r cychwyn.

David Lloyd, Cyd-gysylltydd Dysgu Seiliedig ar Waith

Mae adnoddau addysgol agored TELSTAR yn ddosbarth cyntaf. Dwi'n meddwl fod y newid diwylliant wedi dechrau. Mae staff yn awr yn dechrau cydnabod gwerth defnyddio adnoddau agored i ychwanegu at eu defnyddiau eu hunain. Mae gan adnoddau agored y potensial i hybu arloesedd addysgol drwy gyflwyno syniadau, deunyddiau, a chynnwys newydd, gyda dewisiadau eraill ar gyfer addysgu effeithiol i'w haddasu a'u hail-ddefnyddio er mwyn hyrwyddo cydweithio a chyfranogi.

Colleen Connor, Deon Dysgu ac Addysgu

Gwybodaeth Ychwanegol:

Cyhoeddir cyfleoedd ariannu JISC ar gyfer arloesedd seiliedig ar dechnoleg ambell waith ar wefan JISC a thrwy nifer o restrï JISCmail a sianeli eraill. Os hoffech chi ddarganfod mwy am y cyfleoedd ariannu hyn, gweler <http://www.jisc.ac.uk/fundingopportunities.aspx> neu gysylltwch â JISC RSC Cymru support@rsc-wales.ac.uk am ragor o wybodaeth.

Hoffai JISC RSC Cymru ddiolch i staff Prifysgol Fetropolitan Caerdydd am ganiatâd i ddyfynnu o'u hadroddiad prosiect gwreiddiol.

Dysgu yn y gwaith: Adloniant, Digwyddiadau, Twristiaeth a Chwaraeon

Prifysgol Fetropolitan Abertawe (Cyfadran)

Geiriau Allweddol: Dysgu seiliedig ar waith, cydweithio diwydiant rhyngwladol, sgiliau cyflogadwyedd graddedigion, grymuso, sgiliau gwasanaethu gwestai

Nod:

- i ddarparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith i is-raddedigion o bob disgyblaeth o fewn y diwydiannau rhyngwladol Adloniant, Digwyddiadau, Twristiaeth, Chwaraeon a Busnes er mwyn gwella eu cyflogadwyedd graddedig;
- trwy ddefnydd grymuso a chyfleoedd gwasanaethu gwestai, nod y rhaglen yw creu graddedigion â sgiliau ar flaen y gad sydd yn gallu datblygu gyrfaeod rheoli arbenigol yn gyflym.

Disgrifiad/dull:

Mae'r astudiaeth achos yn gysylltiedig â'r myfyrwyr Lleoliad Cymhwysol ar gyfer Digwyddiadau Adloniant, Twristiaeth a Chwaraeon (isafswm o 360 awr o waith dros o leiaf 12 wythnos) a'r Lleoliad Rhyngosod (isafswm o 1,200 awr o waith dros o leiaf 40 wythnos) sy'n hygyrch i bob myfyriwr is-raddedig y gyfadran. Mae'r fenter wedi'i dylunio i ddatblygu sgiliau graddedigion trwy waith.

Mae myfyrwyr yn derbyn cefnogaeth ac arweiniad cyn-leoliad parhaus er mwyn iddynt ystyried eu hanghenion dysgu ac yn cyflawni archwiliad cymwysterau personol a dadansoddiad anghenion hyfforddiant. Mae hyn wedi'i dylunio i'w caniatáu i wneud y gorau o'r cyfle i ddysgu yn y gwaith.

Trefnir amrywiaeth o gyflwyniadau, digwyddiadau recriwtio a chyfweiliadau diwydiant rhyngwladol i ganiatáu i'r myfyrwyr ystyried y sgiliau sydd angen ar gyfer y diwydiant. Mae gofyn iddynt baratoi cynllun datblygu personol a phortffolio i roi'r cyfle iddynt ddiogelu profiad priodol yn y gweithle i ddiwallu eu hanghenion personol a'u cynlluniau gyrfa.

Bydd myfyrwyr yn derbyn tiwtorialau parhaus er mwyn iddynt werthuso'n feiriadol y cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith mwyaf addas i'w cynlluniau gyrfa unigol. Dylunir y profiad lleoliad i'r unigolyn er mwyn darparu myfyrwyr â chymysgedd amrywiol a chyfoethog o sgiliau galwedigaethol yn ogystal â phrofi materion busnes, rheoli a diwylliannol mewn gweithle sy'n berthnasol i'w sefyllfa personol.

Bydd dysgu yn y gwaith yn caniatáu i fyfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth busnes, rheoli a chorfforaethol gyffredinol yn ogystal â datblygu sgiliau arbenigol. Bydd hyn yn cynnwys y gallu i asesu adnoddau, materion sefydliadol, ariannol a chymhelliant yn fanwl, yn ogystal â gwerthuso polisiau a dulliau gweithredu.

Mae'r broses asesu wedi cael ei datblygu dros amser er mwyn gwneud y gorau o gyfleoedd dysgu yn y gwaith. Mae ymweliad asesu manwl yn cynnwys arfarniad cyflogwr/myfyriwr a viva myfyriwr manwl yn caniatáu i fyfyrwyr ddadansoddi a thrafod materion seiliedig ar waith gydag arweiniad y tiwtor, tra bod cofnodion datblygu a DVDs arloesol yn sicrhau bod y myfyrwyr yn adlewyrchu ar eu profiad dysgu, perfformiad gwaith a sgiliau diwydiant.

Ar ôl dychwelyd i'r Brifysgol wedi iddynt gwblhau'r profiad gwaith, bydd y myfyriwr yn defnyddio'i brofiadau a'i ddealltwriaeth i danategu ei astudiaethau yn y dyfodol. Defnyddir astudiaethau achos galwedigaethol o'r gwaith mewn modiwlau'r flwyddyn derfynol drwy gydol y rhaglen, tra bod y modiwlau Ymgynghoriaeth Sefydliadol/Traethawd Hir yn caniatáu i'r myfyriwr ddatblygu themâu o'r profiad dysgu seiliedig ar waith ymhellach.

Deilliannau a ragwelir:

- gwelliant mewn sgiliau cyflogadwyedd graddedigion a myfyrwyr sydd â'r sgiliau sydd angen i lwyddo yn y diwydiant;
- graddedigion sy'n datblygu'r sgiliau, cymwysterau a phrofiad diwydiant-benodol sydd angen, yn cynnwys grymuso, safonau gwasanaeth gwestai a sgiliau allweddol seiliedig ar waith;
- datblygiad perthnasoedd gweithio agosach â diwydiant rhyngwladol er mwyn darparu myfyrwyr â chyfleoedd hyfforddiant graddedigion yn y dyfodol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

- sefydlu cysylltiadau cydweithredol academiaidd gydag amrywiaeth o sefydliadau yn cynnwys West Paces Hotel Group, ac yn arbennig eu heiddo yn Iwerddon, y DU a'r Unol Daleithiau;
- yn 2011, dewiswyd tri o raddedigion ar gyfer rhaglenni hyfforddiant i raddedigion gyda chyflogwr seiliedig ar waith allweddol, o ganlyniad uniongyrchol o ddysgu yn y gwaith;
- yn Hydref 2011, dewiswyd dau o raddedigion a myfyriwr lleoliad i weithio mewn safleoedd strategol ar agoriad gwesty moethus newydd sbon o ganlyniad i ymrwymiad y Rheolwr Cyffredinol yn y rhaglen, a'u profiadau dysgu yn y gwaith eu hunain;

- yn 2011, roedd un myfyriwr a gwblhaodd leoliad rhyngosod un-flwyddyn yn gallu symud marc ei radd i fyny o 2.2 i 2.1 o ganlyniad uniongyrchol i'w ddealltwriaeth well o faterion busnes a rheolaeth o fewn y diwydiant, oherwydd dysgu yn y gwaith.

Myfyrdod/effaith:

Effaith y fenter hon yw bod myfyrrwyr wedi datblygu eu dealltwriaeth o rymuso trwy wybodaeth ymarferol a damcaniaethol o fentrau diwydiannol ar faes y gad, a'u bod yn cael eu hannog i fod yn fwy creadigol a mentrus wrth weithio a delio â'u cyfrifoldebau yn y gwaith.

Mae myfyrrwyr hefyd wedi datblygu'r gallu i adlewyrchu ar eu profiadau dysgu eu hunain yn y gwaith a gwerthuso materion rheoli er mwyn gwella eu sgiliau seiledig ar waith a'u cyflogadwyedd.

Lleoliadau Diwydiannol Cymhwysol

Prifysgol Fetropolitan Abertawe (Cyfadran)

Geiriau allweddol: lleoliad rhyngosod, gweithredu gwybodaeth o'r gweithle

Nod:

Mae'r modiwlau Lleoliad Gwaith a Lleoliad Diwydiannol Cymhwysol wedi'u dylunio er mwyn adlewyrchu ffocws cynyddol y ddwy Lywodraeth a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyflogadwyedd a dysgu seiledig ar waith, ac yn darparu myfyrrwyr â chymysgedd amrywiol a chyfoethog o sgiliau galwedigaethol eu natur.

Disgrifiad/dull:

Mae gan Brifysgol Fetropolitan Abertawe draddodiad hir o ddarparu cyrsiau galwedigaethol ar gyfer myfyrrwyr yn lleol ac yn genedlaethol, ac mae Ysgol Fusnes Abertawe, sydd yn rhan o Gyfadran Fusnes a Rheolaeth y Brifysgol, wedi ail-ddilysu ei phrif bortffolios Busnes (rhai is-raddedig ac i raddedigion) gan adeiladu ar yr ethos galwedigaethol hwn.

Mae'r portffolio is-raddedig er enghraifft, wedi'i ddylunio i ddarparu myfyrrwyr â dulliau gweithio academaidd ac ymarferol i fusnes ac addysg busnes, gan ganolbwyntio ar sgiliau a ddylunir i wella cyflogadwyedd myfyrrwyr. Adlewyrchir hyn yng nghydnabyddiaeth y dyfarniadau gan gyrff proffesiynol.

Mae'r portffolio wedi'i ddylunio fel y gall myfyrrwyr naill ai dewis i ddatblygu eu diddordebau yn y meysydd allweddol o reoli (er enghraifft Rheolaeth Ariannol, Adnoddau Dynol neu Farchnata) neu ddefnyddio dull gweithio sy'n canolbwyntio'n fwy ar ddiwydiant (er enghraifft, Adloniant, Chwaraeon neu Reolaeth Twristiaeth).

Mae cynnwys dyfarniadau Adloniant, Chwaraeon a Rheolaeth Twristiaeth yn y Portffolio Busnes wedi golygu bod y modiwl Lleoliad Diwydiannol Cymhwysol (o isafswm o 360 awr dros 12 wythnos, gyda gwerth o 40 credyd ar Lefel 5) yn graidd i ddyfarniadau Adloniant, Twristiaeth a Chwaraeon, ac yn ychwanegol, cynigir modiwl Lleoliad Gwaith (Rhyngosod) (o isafswm o 1,200 awr dros 40 wythnos, heb werth credyd ychwanegol) i bawb; bydd y myfyrrwyr hynny sy'n dewis un lleoliad neu'r llall, neu'r ddau leoliad yn ymgysylltu â dysgu ar gyfer cyflogaeth a dysgu mewn cyflogaeth.

Nid yw hyn yn ymarfer mewn torri corneli yn y lleoliad, gan fod anghenion a gofynion gwahanol gan wahanol fyfyrwyr, ac efallai nad yw lleoliad yn ymarfer priodol ar gyfer pob myfyriwr. Hefyd, mae natur galwedigaethol lleoliad yn golygu bod gwerth yr ymarfer yn amrywio o raglen i raglen. Fodd bynnag, mae'r wici hwn yn berthnasol i'r myfyrwyr hynny sydd yn dysgu mewn cyflogaeth.

Mae'r modiwl Lleoliad Gwaith yn galluogi myfyrwyr i wneud lleoliad o hyd at flwyddyn gyda sefydliad, gan eu caniatáu iddynt gael y cyfle i weithredu damcaniaethau, cysyniadau a sgiliau a enillir ar Lefel 4 mewn amgylchedd seiliedig ar waith, a lle bo'n bosib, i ennill profiad mewn rôl goruchwyllo/is-reolaeth.

Er nad oes unrhyw gredydau modiwl yn cael eu rhoi ar gyfer y lleoliad gwaith, mae'n gydnabyddedig yn perthyn i'r gradd, gan fod llawer o fyfyrwyr yn defnyddio'r profiad fel sail i'w prosiect Ymgynghori Sefydliadol yn y flwyddyn derfynol (20 credyd ar lefel 6).

Mae'r Lleoliad Diwydiannol Cymhwysol (craidd ar gyfer dyfarniadau Adloniant, Chwaraeon, a Rheoli Twristiaeth) yn ffocysu ar gyflogadwyedd a sgiliau seiliedig ar waith, gyda chefnogaeth amrywiaeth o gyflogwyr allweddol o fewn y diwydiant adloniant, twristiaeth a chwaraeon yn y Du a thramor. Mae'r modiwl yn canolbwyntio'n unigol i ddiwallu anghenion personol myfyrwyr yn ogystal â nodau ac amcanion y cwrs, ac mae'n darparu myfyrwyr â phrofiad ymarferol o fewn y diwydiannau adloniant, twristiaeth, chwaraeon a hamdden. Mae canlyniadau dysgu Lleoliad Diwydiannol Cymhwysol yn tueddu i fod yn fwy penodol i ddiwydiant (o gymharu â'r Modiwl Lleoliad Gwaith). Wedi iddynt gwblhau'r modiwl, bydd myfyrwyr yn gallu: ystyried ac adolygu amrywiaeth o gyfleoedd sy'n berthnasol i'r diwydiant ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol; ygyrmyd yn effeithlon â lleoliad o fewn sector eu dewis a gwerthfawrogi pwysigrwydd sgiliau allweddol sy'n benodol i'r diwydiant ac yn seiliedig ar waith; dadansoddi'n feirniadol a gwerthuso perfformiad rheolwyr yn y gweithle; a thrafod materion a phroblemau sy'n benodol i'r diwydiant a rhai sefydliadol mwy cyffredinol.

Wedi cwblhau'r lleoliad, gwneir ymarfer ôl-drafodaeth, sy'n galluogi i fyfyrwyr adlewyrchu ar ac asesu eu profiad lleoliad. Mae'r ymarfer yn canolbwyntio ar y myfyriwr ac yn gadael lle ar gyfer adlewyrchu ar ddysgu lleoliad yn ôl y cofnodion lleoliad, a rhannu profiadau gyda myfyrwyr eraill o'r un garfan a thiworiaid lleoliad.

Mae'r myfyriwr lleoliad unigol yn aml yn defnyddio'r profiad a enillir o'r lleoliad a'r ymarfer ôl-drafodaeth i'w helpu i ddatblygu a ffocysu eu cynlluniau gyrfa, p'un a yw'r rhain gyda chyflogwr y lleoliad neu yn yr un maes gwaith. Yn ogystal â hyn, anogir myfyrwyr sydd wedi cwblhau eu lleoliadau i rannu profiadau eu lleoliad gyda myfyrwyr lleoliad y dyfodol.

Mae'r deilliannau dysgu i'w cyflawni er mwyn cwblhau'r modiwl Lleoliad Gwaith (Rhyngosod) fel a ganlyn:

i gwblhau profiad lleoliad un-flwyddyn yn llwyddiannus gan arddangos datblygiad proffesiynol a phersonol; i drafod yn feirniadol, cymharu a dadnasoddi'n fanwl materion rheoli penodol a chyffredinol sy'n effeithio ar berfformiad y sefydliad; i asesu'n feirniadol a manwl adnoddau, materion sefydliadol, ariannol a chymhelliant sy'n effeithio'r sefydliad; i weithredu'n feirniadol amrywiaeth o ddamcaniaethau mewn cyd-destun seiliedig ar waith; a gwerthuso a thrafod amrywiaeth o faterion perthnasol i'r diwydiant a pholisiau a gweithdrefnau sefydliadol.

Bydd y rhain i gyd yn cael eu hasesu drwy ymweliad lleoliad, a fydd yn cynnwys arfarniad cyflogwr a viva myfyrwyr. Mae angen i fyfyrwyr hefyd gynnal a chadw cofnod lleoliad o'u dysgu seiliedig ar waith trwy gydol cyfnod y lleoliad.

Yn gyffredin i'r modiwlau lleoliad eraill i gyd, mae amrywiaeth o weithdrefnau a mecanweithiau yn eu lle i gefnogi profiad y myfyrwyr; mae'r rhain yn cynnwys rhestr wirio iechyd a diogelwch ar gyfer pob myfyriwr/lleoliad, a defnydd Moodle, Skype a'r Rhith-amgylchedd dysgu ar gyfer cyswllt a chymorth ynghyd â rhestr o rifau ffôn argyfwng.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae'r modiwlau lleoliad fel eu bod yn cael eu cynnwys yn y portffolio Busnes sydd wedi'i ail-ddilysu wedi profi i fod yn llwyddiannus; mae'r myfyrwyr ar y dyfarniadau Adloniant, Twristiaeth a Chwaraeon yn gallu ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith a gydnabyddir ac a werthfawrogir o fewn eu diwydiannau, ond i fyfyrwyr dyfarniadau Busnes cynigir y lleoliad fel opsiwn iddynt ennill dysgu seiliedig ar waith perthnasol ohono, a fydd naill ai yn cael cydnabyddiaeth broffesiynol perthnasol neu beidio.

Cyflwyno Dysgu Seiliedig ar Waith i Iechyd a Gofal

Cymdeithasol

Prifysgol Abertawe (Cyfadran)

Geiriau Allweddol: Rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith

Nod:

Mae'r fenter hon wedi'i hanelu at unigolion sy'n dymuno symud eu hymarfer eu hunain ymlaen yn eu cylch proffesiynol.

Disgrifiad/dull:

Datblygu

Yn gychwynnol casglwyd data gan ymweliadau â sefydliadau Dysgu Seiliedig ar Waith wedi'u hen ymsefydlu. Yna, cynhaliwyd cyfarfod o grŵp o ddarlithwyr â diddordeb i ddatblygu deilliannau dysgu digon eang iddynt apelio at gynulleidfa amrywiol, gan adael dau o ddeilliannau ar gyfer pob ymarferydd i'w nodi er mwyn sicrhau cymhwysedd i'w maes a'u datblygiad eu hunain.

Hwyluso

Mae'r bwyslaidd yn driphlyg rhwng y myfyriwr; yr hwyluswr a'r darlithydd i sefydlu contract dysgu. Cefnogir myfyrwyr gan ddysgu gweithredol ac adolygu rheolaidd o'u contractau dysgu.

Asesu

Asesir y dysgu seiliedig ar waith drwy bortffolio a anogir gan ddatblygiad a chyflawniad y contract dysgu, sydd yn hysbysu datblygiad sail dystiolaeth personol myfyriwr.

Deilliannau a ragwelir:

- dull gweithio unigryw i ddatblygiad personol proffesiynol ac ymarferol;
- cynnydd mewn dysgu ystyrion a perthnasedd i ymarfer.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

- ymarferwyr yn gwneud newidiadau ymarferol ar lefel personol a thîm ac addysgu cydweithwyr meddygol;
- niferoedd cynyddol ers ei gyflwyniad.

Heriau/cyfleoedd sicrhau ansawdd neu gwella ansawdd penodol a grewyd gan y fenter hon:

- sicrhau'r profiad myfyrwyr; ansawdd dysgu yn y gweithle, amser i feddwl a dysgu;
- tystiolaeth o amrywiaeth fawr o ran dulliau dysgu ar hyd a lled y Brifysgol – materion fel rheoliadau, achredu, dyfarniadau a.a. – tîm embryonig i edrych ar sicrhau cysondeb lle bo'n bosibl, dan arweinyddiaeth Gail P Mooney.

Myfyrdod/effaith:

Mae myfyrwyr wedi'u grymuso'n fwy gan y dull gweithio hwn i addysg a datblygiad, ac yn gallu gwneud newidiadau ymarferol sy'n seiliedig ar dystiolaeth at fantais eu hunain a'u cleientiaid.

Dysgu mewn Cyflogaeth: gwerthusiad beirniadol gan Gyfadran Busnes a Chymdeithas

Prifysgol Morgannwg (Cyfadran)

Geiriau allweddol: lleoliadau gwaith, cyflogadwyedd

Nod:

Nod y modiwl 'Myfyrdod Beirniadol ar Ddysgu yn y Gweithle' yw datblygu ymarfer adfyfyriol ymysg y dysgwyr; i'w ddefnyddio i wella effeithiolrwydd eu cyfraniad i'r gweithle. Bydd y modiwl yn datblygu dysgu annibynnol gyda dysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr wedi'i seilio ar eu profiad o'r gweithle. Mae'r modiwl wedi'i dargedu tuag at fyfyrwyr BA Rheoli Busnes, yn cynnwys Menter, Adnoddau Dynol, Marchnata, Logisteg a Rheoli Cadwyn Gyflenwi, ar gwblhau eu hail flwyddyn o astudio a chyn dechrau eu blwyddyn derfynol a graddio.

Disgrifiad/dull:

Anogir pob myfyriwr i gymryd mantais o leoliad gwaith â chyflog ar ôl Blwyddyn 2. Mae'n tystiolaeth yn awgrymu bod myfyrwyr sy'n cwblhau lleoliad gwaith yn ennill dosbarthiad gradd uwch* ac yn fwy tebygol o adael y brifysgol gyda chynnig swydd.

Wedi cwblhau lleoliad gwaith yn llwyddiannus a chynhyrchu dyddiadur adfyfyriol, bydd myfyrwyr yn ennill y modiwl Dysgu Seiliedig ar Waith 20 credyd ar Lefel 6. Mae lleoliadau gwaith ar gyfer un flwyddyn mewn amrywiaeth o sefydliadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, wedi'u trefnu a'u rheoli gan Dîm Busnes a Chyflogadwyedd Ysgol Fusnes Morgannwg. Cynhelir sesiynau paratoi cyn-leoliad ar ddechrau'r ail flwyddyn mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol, i helpu myfyrwyr â'r recriwtio cystadleuol a cham dewis y broses.

Gwelir y flwyddyn leoliad felartneriaeth driphlyg rhwng y cyflogwr; y myfyriwr a'r Brifysgol. Er nad yw'r Brifysgol yn rhan o'r contract cyflogaeth, mae myfyrwyr sy'n gwneud lleoliadau wedi'u rhestru fel ein myfyrwyr llawn-amser a byddwn yn disgwyl gweithredu lle bo angen i sicrhau bod y myfyriwr yn profi i fod yn weithiwr effeithiol, diogel a dibynadwy. Mae tîm tîm felly yn ymweld â myfyrwyr a'u rheolwyr; a gwneir cyswllt rheolaidd gan y tîm i sicrhau bod myfyrwyr a chyflogwyr yn manteisio o'r profiad.

* Enillwyd gradd dosbarth cyntaf anrhydedd gan 40% o fyfyrwyr lleoliad Ysgol Fusnes Morgannwg o gymharu â 13% o fyfyrwyr di-leoliad (myfyrwyr israddedig Ysgol Fusnes Morgannwg 2010-11).

Deilliannu a ragwelir:

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus dylai'r dysgwr allu gwerthuso'n feirniadol y profiad yn y gweithle mewn perthynas â chydweddu'r sgiliau a'r wybodaeth a enillir gyda'u hastudiaethau eraill a bod yn ddysgwr annibynnol drwy wneud darn o waith adfyfyriol seiliedig ar waith beirniadol o'u dewis. Mae angen eu hasesu mewn:

- dyddiaduron adfyfyriol yn darlunio'r broses y datblygwyd eu dysgu annibynnol drwyddi, gyda thystiolaeth briodol. Rhaid i hyn gynnwys digon o gofnodion er mwyn i ddatblygiad y myfyriwr gael ei asesu. Mae angen geiradau boddhaol gan y cyflogwr a'r goruchwyliwr ymarfer gweithio hefyd (50%);
- gwerthusiad beirniadol o'r profiad yn y gweithle, sy'n cydweddu â'r sgiliau a'r wybodaeth a enillir gyda'r rheiny a enillwyd trwy'r astudiaethau academaidd perthnasol (hyd at 3,000 o eiriau) (50%).

Bydd myfyrwyr sy'n cwblhau lleoliad gwaith rhwng yr ail a'r drydedd flwyddyn yn derbyn dyfarniad o fodiwl Dysgu Seiliedig ar Waith 20 credyd ar ôl cwblhau dyddiadur adfyfyriol yn llwyddiannus, ac ni fydd angen iddynt astudio'r modiwl Profiad Cyflogaeth ar Lefel 6.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Bydd dull gweithio sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr yn cael ei fabwysiadu a bydd y mwyafrif o'r dysgu yn digwydd trwy ymgysylltu gweithredol a beirniadol adfyfyriol gyda gweithgareddau gwaith wedi'u tanategu gan y wybodaeth a sgiliau academaidd priodol. Ni fydd unrhyw gyflenwi ffurfiol a gysylltir â'r modiwl hwn, ond bydd myfyrwyr yn derbyn llawlyfr modiwl ac arweiniad gan oruchwyliwr ymarfer gwaith academaidd. Yn ychwanegol, bydd gan fyfyrwyr fynediad i amgylchedd dysgu ar-lein y Brifysgol.

Heriau/cyfleoedd sicrhau ansawdd neu gwella ansawdd penodol a grewyd gan y fenter hon:

Mae'r thema hon yn gyson â Datganiad Meincnodi Pwnc yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd: Busnes a rheolaeth gyffredinol (2007), sy'n awgrymu y dylai myfyrwyr gael "paratoi ar gyfer datblygu gyrfa mewn busnes a rheolaeth" a: "Dylai fod integreiddio rhwng damcaniaeth ac ymarfer trwy amrywiaeth o ddulliau yn ôl y modd cyflawni, er enghraifft dysgu seiliedig ar waith, profiad gwaith neu leoliad, profi materion busnes yn cynnwys astudiaethau achos seiliedig ar gyflogwyr; ymweliadau a mewnbynnau gan reolwyr wrth eu gwaith."

Myfyrdod/Effaith :

Mae *Adroddiad Y Farchnad Graddedigion 2010* yn adrodd bod swyddi i raddedigion wedi gostwng o 23% rhwng 2007 a 2009. Er bod *Adroddiad y Farchnad Graddedigion a'r Sefydliad Recriwtio Graddedigion* yn cytuno bod swyddi gwag yn cynyddu yn 2010, roeddent hefyd yn cytuno y bydd cystadleuaeth ffyrmig ar gyfer swyddi ac maent felly yn cynghori graddedigion i wella eu sgiliau trwy leoliad gwaith, profiad ymarferol a pharatoi trwyadl ar gyfer cyfweiliadau, asesiadau, a.a. Cafwyd profiadau cadarnhaol iawn gan y myfyrwyr hynny a gwblhawyd lleoliadau gwaith, ac maent yn argymhell agwedd hon y cwrs yn gryf. I annog rhagor o fyfyrwyr i gymryd rhan, dyfeisiwyd y modiwl *Dysgu Seiliedig ar Waith 20-credyd ar Lefel 6* er mwyn galluogi myfyrwyr i fanteisio ymhellach o'r dyfarniadau.

Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith Cymru-gyfan a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop

Prifysgol Morgannwg (Sefydliadol)

Geiriau allweddol: dysgu seiliedig ar waith, dysgu cryno a byr, ymateb i'r galw, llywio gan gyflogwyr; datblygu gyrfa, arloesedd, sgiliau lefel-uwch, cydweithrediad.

Rheolir rhaglen *Dysgu Seiliedig ar Waith Cronfa Cymdeithasol Ewrop* a ariennir gan Gronfa Gydgyfeirio Cymdeithasol Ewropeaidd yr Undeb Ewropeaidd trwy Lywodraeth Cymru, gan Brifysgol Morgannwg, a rhoddir y rhaglen ar waith ar sail Cymru-gyfan, sy'n golygu y gall sefydliadau AU ac AB ymgeisio ar gyfer ariannu i ddatblygu a chyflenwi'r cwricwlwm er budd y sector preifat yng Nghymru.

Nod:

Drwy ddull partneriaeth gydweithredol, nod y rhaglen *Dysgu Seiliedig ar Waith* yw caniatáu y rheiny sy'n byw a/neu gweithio yn ardal Gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop i gael y cyfle i gael mynediad i ac ennill cymwysterau lefel-brifysgol. Gall pob myfyriwr sy'n cyfranogi ennill cymhwyster *Dysgu Seiliedig ar Waith* tra eu bod naill ai mewn gwaith llawn-amser neu ran-amser.

Rhaid i bob prosiect gael eu dylunio mewn partneriaeth â Chynghorau Sgiliau Sector. Caiff prosiectau eu targedu tuag at lenwi'r gwagle sgiliau o fewn diwydiannau ar hyd a lled sectorau blaenorol Cymru: ynni; rheoli amgylcheddol; telathrebu a TGCh; biowyddoniaeth; iechyd (nid sector cyhoeddus); gwasanaethau ariannol; diwydiannau creadigol; awyrofod modur; adeiladu; ac adloniant a thwristiaeth.

Bydd y rhaglen *Dysgu Seiliedig ar Waith* yn darparu gweithwyr cyflogedig y cwmni â'r cyfle i gael mynediad i ddydd addysg uwch, mewn fformat cryno a byr. Gall y 60 credyd y gellir eu hennill hyd yn oed annog y cyfranogwr i barhau â'u profiad

addysg uwch. Bydd cyflogwyr yn manteisio o'r gweithlu yn cael y sgiliau sydd angen er mwyn cyfoethogi eu sefydliadau a helpu i sicrhau bod gan weithwyr y sgiliau sydd angen ar gyfer y cystadleuaeth gynyddol yn y farchnad lafur.

Mae meini prawf penodol i'w dilyn er mwyn i gyfranogwyr fanteisio ar gefnogaeth y Gronfa Gymdeithasol Ewrop sydd ar gael. Rhaid iddynt fod mewn cyflogaeth yn y sector preifat, ac yn byw a/neu gweithio yn ardaloedd Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Disgrifiad/dull:

Mae rhaglen Cymru-gyfan Dysgu Seiliedig ar Waith Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn raglen £34 miliwn sy'n cwmpasu mwyafrif y sefydliadau AU ac AB yng Nghymru. Bydd y rhaglen yn rhedeg tan Haf 2015. Nod y rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith yw sicrhau mynediad i gyrsiau Dysgu Seiliedig ar Waith i 7,600 o fyfyrwyr sy'n gyflogedig yn y sector preifat, gyda 5,320 o'r rhain yn ennill credydau AU ar Lefelau 4-7 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (hyd at uchafswm o 60 credyd y dysgwr drwy'r rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith).

Mae nifer o ddulliau cyflenwi, yn cynnwys cyflenwi uniongyrchol, dysgu seiliedig ar waith, dysgu cyfunol a dysgu o bellter; fel bod myfyrwyr yn gallu astudio'n hyblyg ochr yn ochr â'u gwaith arferol pob-dydd. Mae cwblhau cwrs Dysgu Seiliedig ar Waith yn darparu cyfranogwyr ag uchafswm o 60 credyd pifysgol, i'w defnyddio tuag at gymhwyster prifysgol llawn; mae Dysgu Seiliedig ar Waith hefyd yn ffordd wych o fodloni targedau Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Deilliannau a ragwelir:

Dylai'r economi rhanbarthol gael ei atgyfnerthu drwy sail sgiliau cynyddol y gweithwyr ac effaith gadarnhaol hyn ar gyflogwyr. Bydd y sector AU a'i bartneriaid allweddol yn llwyddo newid y ffordd y mae'n gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr; er budd yr economi yng Nghymru.

Bydd y perthnasoedd a ddatblygir rhwng AU, AB, Cynghorau Sgiliau Sector a diwydiant yn ystod oes y rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith yn arwain at ragor o gydweithio ystyrion ar ôl i'r rhaglen orffen, gan sicrhau y bydd cymwysterau'r dyfodol yn cael eu datblygu mewn ffordd gydweithredol, gan gadw gofynion y diwydiant yn flenoriaeth o ran dylunio cwricwlwm.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Bydd gwerthusiad hanner tymor a therfynol yn cael ei gyflawni ar gyfer y rhaglen. Er nad ydym yn gwybod y canlyniadau eto, mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu bod yr ariannu yn annog sefydliadau AU ac AB i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol, a bod cyflogwyr yn dechrau cael mwy o fewnbwn i ddylunio a datblygu curricula sy'n ateb eu gofynion sgiliau yn y dyfodol.

Myfyrdod/effaith:

Mae'r rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith yn arloesol iawn, yn effeithiol ac yn ffordd rhwydd o gael mynediad i addysg uwch. Nid yw'r sector AU ac AB wedi ceisio cydgysylltu dyluniad a datblygiad newydd y cwricwlwm erioed o'r blaen ar lefel Cymru-gyfan.

Mae'r cysylltiadau newydd â Chynghorau Sgiliau Sector yn annog sefydliadau i feddwl yn fwy am ddarparu cyrsiau sy'n ymateb i'r galw, yn enwedig ar gyfer y rheiny sydd mewn cyflogaeth yn barod sy'n dymuno uwchsgilio. Bydd y cynllun hwn yn grymuso gweithwyr a chyflogwyr i gyfleu eu barn ar beth sydd angen arnynt er mwyn creu Cymru mwy Ffyniannus â sgiliau gwell.

Rhaglen Gradd Sylfaen Cymru-gyfan a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop

Prifysgol Morgannwg (Sefydliadol)

Geiriau allweddol: graddau sylfaen, dysgu seiliedig ar waith, ymateb i'r galw, llywio gan gyflogwyr; datblygu gyrfa, arloesedd, sgiliau lefel-uwch, cydweithrediad.

Rheolir rhaglen Gradd Sylfaen Cronfa Gymdeithasol Ewrop a ariennir gan Gronfa Gydgyfeirio Gymdeithasol Ewropeaidd yr Undeb Ewropeaidd trwy Lywodraeth Cymru, gan Brifysgol Morgannwg, a rhoddir y rhaglen ar waith ar sail Cymru-gyfan, sy'n golygu y gall sefydliadau AU ac AB ymgeisio ar gyfer ariannu i ddatblygu a chyflenwi'r cwricwlwm er budd y sector preifat yng Nghymru.

Nod:

Trwy ddull gweithio cydweithredol, prif nod y rhaglen Gradd Sylfaen yw caniatáu i'r rheiny sy'n byw a/neu gweithio yn ardal Gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop i gael y cyfle i gael mynediad i ac ennill cymhwyster gradd sylfaen. Mae pob gradd sylfaen wedi ei dylunio i'w hennill tra bod y cyfranogydd yn gweithio naill ai llawn-amser neu'n rhan amser.

Rhaid i bob gradd sylfaen gael ei dylunio mewn partneriaeth â Chynghorau Sgiliau Sector. Caiff prosiectau eu targedu tuag at lenwi'r gwagle sgiliau o fewn diwydiannau ar hyd a lled sectorau blaenorol Cymru: ynni; rheoli amgylcheddol; telathrebu a TGCh; biowyddoniaeth; iechyd (nid sector cyhoeddus); gwasanaethau ariannol; diwydiannau creadigol; awyrafod modurrol; adeiladu; ac adloniant a thwristiaeth.

Trwy'r fenter hon, mae myfyrwyr yn cael y cyfle i gwblhau cymhwyster amgen i raddau israddedig a Diplomâu Cenedlaethol Uwch, wrth roi profiad gwaith ymarferol iddynt a'u helpu i ddatblygu sgiliau ymarferol i gynyddu eu datblygiad personol a phroffesiynol. O ran cyflogwyr, mae'r rhaglen yn eu darparu â gweithlu gyda'r sgiliau sydd angen arnynt er mwyn cyfoethogi eu sefydliadau gan helpu i sicrhau bod gan fyfyrwyr y sgiliau sydd angen ar gyfer y cystadleuaeth gynyddol yn y farchnad lafur.

Mae meini prawf penodol i'w dilyn er mwyn i gyfranogwyr fanteisio ar gefnogaeth y Gronfa Gymdeithasol Ewrop sydd ar gael. Rhaid iddynt fod mewn cyflogaeth yn y sector preifat, ac yn byw a/neu gweithio yn ardaloedd Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Disgrifiad/dull:

Mae rhaglen Cymru-gyfan Gradd Sylfaen Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn raglen £16.5 miliwn sy'n cwmpasu'r mwyafrif o sefydliadau AU ac AB yng Nghymru. Bydd y rhaglen yn rhedeg tan Haf 2015. Nod y rhaglen Gradd Sylfaen yw bod 1,330 o fyfyrwyr sy'n gyflogedig yn y sector preifat yn cael mynediad i gyrsiau gradd sylfaen, ac y dylai 1,064 o'r rhain ennill cymhwyster llawn (naill ai tystysgrif AU neu radd sylfaen llawn).

Mae'r prosiectau Gradd Sylfaen o fewn y fenter yn cynnig 240 credyd wedi'u ffurfio gan gyfres o fodiwlau â gwerth o 10-30 credyd y modiwl. Mae nifer o ddulliau cyflenwi, yn cynnwys cyflenwi uniongyrchol, dysgu seiliedig ar waith, dysgu cyfunol a dysgu o bellter, fel bod myfyrwyr yn gallu astudio'n hyblyg ochr yn ochr â'u gwaith arferol pob-dydd. Gan fod sefydliadau gwahanol yn dylunio bob cwrs Gradd

Sylfaen, mae'r gofynion mynediad yn amrywio'n fawr o brofiad gwaith blaenorol i gymwysterau Lefel 2 a 3 (Lefel AS/A). O ran llwybrau datblygu, bydd cwblhau Gradd Sylfaen yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr symud ymlaen i wneud gradd anrhydedd lawn neu Radd Meistr.

Deilliannau a ragwelir:

Dylai'r economi rhanbarthol gael ei atgyfnerthu drwy sail sgiliau cynyddol y gweithwyr ac effaith gadarnhaol hyn ar gyflogwyr. Bydd yr ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn sicrhau bod y sector AU a'i bartneriaid allweddol yn llwyddo newid y ffordd y mae'n gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr, er budd yr economi yng Nghymru.

Y gobaith yw y bydd y perthnasoedd a ddatblygir rhwng AU, AB, Cyngorau Sgiliau Sector a diwydiant yn ystod oes y rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith yn arwain at ragor o gydweithio ystyrllon ar ôl i'r rhaglen orffen, gan sicrhau y bydd cymwysterau'r dyfodol yn cael eu datblygu mewn ffordd gydweithredol, gan gadw gofynion y diwydiant yn flenoriaeth o ran dylunio cwricwlwm.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Bydd y rhaglen Gradd Sylfaen yn manteisio o ymarfer gwerthuso prosiect – ni wyddir y canlyniadau eto. Fodd bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod yr ariannu yn annog sefydliadau AU ac AB i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol, a bod cyflogwyr yn dechrau cael mwy o fewnbwn i ddylunio a datblygu curricula sy'n ateb eu gofynion sgiliau yn y dyfodol.

Myfyrdod/effaith:

Mae'r rhaglen Gradd Sylfen yn arloesol iawn. Nid yw'r sector AU ac AB wedi ceisio cydgysylltu dyluniad a datblygiad newydd y cwricwlwm erioed o'r blaen ar lefel Cymru-gyfan.

Mae'r cysylltiadau newydd â Chyngorau Sgiliau Sector yn annog sefydliadau i feddwl yn fwy am ddarparu cyrsiau sy'n ymateb i'r galw, yn enwedig ar gyfer y rheiny sydd mewn cyflogaeth yn barod sy'n dymuno uwchsgilio.

Bydd y cynllun hwn yn grymuso gweithwyr a chyflogwyr i gyfleu eu barn yn fwy ar beth sydd angen arnynt er mwyn creu Cymru mwy Ffyniannus â sgiliau gwell.

Dysgu trwy Gyflogaeth: pecynnau cymorth fframwaith ac adnoddau

Prifysgol Morgannwg (Sefydliadol)

Geiriau allweddol: fframwaith cragen, disgrifwyr modiwlau amlinellol, pecynnau cymorth adnoddau

Cynulleidfa darged:

Y gynulleidfa darged ar gyfer y fenter hon yw:

- unrhyw un sy'n dymuno ennill cymhwyster prifysgol ar gyfer eu gwaith (yn cynnwys y rheiny sydd heb gymwysterau ffurfiol o bosib, ond sydd â'r 'gallu i weithio ar y lefel berthnasol');
- unrhyw un sydd â chymwysterau perthnasol yn barod, ond sy'n dymuno fframwaith ar gyfer parhau â neu ehangu eu datblygiad;
- unrhyw un a fydd yn ei chael hi'n anodd i fynychu cwrs confensiynol llawn neu ran-amser yn y brifysgol.

Disgrifiad/dull:

Er mwyn hwyluso lefelau uwch o fabwysiadu dysgu seiliedig ar waith, datblygwyd fframwaith dysgu seiliedig ar waith gyda phhecyn cymorth ar-lein o ddeunyddiau cymorth sy'n helpu llwybrau datblygu o lefelau mynediad AU i astudio ôl-raddedig, gan Ganolfan Rhagoriaeth Dysgu ac Addysgu Prifysgol Morgannwg mewn partneriaeth â Gwasanaethau Masnachol Prifysgol Morgannwg yn 2009.

Mae'r fframwaith a'r pecyn cymorth yn cydfynd â Fframwaith Cymwysterau a Chredyddau y DU a Fframwaith Credyddau a Chymwysterau Cymru, ac fe'i ddatblygwyd gydag ymgynghoriad llawn gyda Phenaethiaid cyfadranau Dysgu ac Addysgu.

Deilliannau a ragwelir:

Fframwaith ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a phhecyn cymorth o adnoddau cymorth i ddysgwyr, cyflogwyr a darlithwyr i'w fabwysiadu ar draws Grŵp Morgannwg er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r agenda cyflogadwyedd a sgiliau i fyfyrwyr Prifysgol Morgannwg o bob oedran, ar bob modd astudio, ac ar bob lefel o AU, lle bynnag y maent yn astudio, ar neu i ffwrdd o'r campws, yn y DU neu dramor, gyda deunyddiau cymorth i fyfyrwyr ar gael ar 'Bwrdd Du' rhith amgylchedd dysgu'r Brifysgol.

Tystiolaeth deilliannau gwirioneddol:

Y Fframwaith Dysgu Trwy Gyflogaeth

Mae manylion llawn ar y fframwaith a'i ddulliau gweithredu ar wefan Ganolfan Rhagoriaeth Dysgu ac Addysgu y Brifysgol (<http://celt.glam.ac.uk/Learning-Through-Employment>).

- Disgrifwyr modiwlau amlinellol – cynigir modiwlau amlinellol, yn cynnwys deilliannau dysgu samplu, fel y gall dylunwyr rhaglenni sy'n llai cyfarwydd â dulliau seiliedig ar gymhwysedd o asesu, neu'n llai cyfarwydd ag achredu dysgu anffurfiol, gymryd y rhain 'o'r silff' i'w cynnwys yn eu rhaglenni.

Gellir defnyddio modiwlau Dysgu Trwy Gyflogaeth hefyd er mwyn achredu dysgu lleoliad gan sefydlu cyflogadwyedd mewn i raglenni mwy traddodiadol sy'n seiliedig ar gampws sy'n mabwysiadu dysgu ar gyfer cyflogaeth.

Y pecynnau cymorth Dysgu Trwy Gyflogaeth

Mae pecyn cymorth o ddeunyddiau cymorth hefyd wedi'i ddatblygu gan Ganolfan Rhagoriaeth Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol i ddarparu cyngor ymarferol, cymorth ac arweiniad ar y fframwaith Dysgu Trwy Gyflogaeth, gyda phecynnau cymorth ar wahân wedi'u targedu at ddysgwyr, cyflogwyr a darlithwyr:

- **Pecyn cymorth dysgwyr** – hyrwyddir y pecyn dysgu i ddysgwyr ar dudalenau gwefan y Brifysgol (<http://celt.glam.ac.uk/Learning-Through-Employment/Learners-Toolkit>), gyda deunyddiau cymorth ar gael ar 'Bwrdd Du'. Mae deunyddiau cymorth y pecyn cymorth dysgwyr yn rhyngweithio â'r rhith amgylchedd dysgu drwy system reoli cynnwys Prifysgol Morgannwg 'GlamLearn'. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys: canllawiau ar ddysgu i ddysgu â'r pecyn cymorth a chanllawiau ar ymgysylltu â'r System Reoli Cynnwys; canllawiau ar achredu dysgu blaenorol; canllawiau ar baratoi contract dysgu; canllawiau ar gael mynediad i gyfleusterau'r Brifysgol (mae llawer ohonynt ar gael ar-lein); deunyddiau cymorth llawn ar sut i asesu dysgu seiliedig ar waith, yn cynnwys amlinelliad o ddulliau asesu amrywiol; canllawiau ar baratoi portffolio a gyfer asesiad (gydag integreiddio erfyn e-bortffolio o fewn Bwrdd Du i hwyluso asesu a chynllunio datblygiad personol); canllawiau ar adfyfrio ac adolygu, gwneud cyflwyniadau, a pharatoi prosiectau seiliedig ar waith ac ymchwil. Mae'r pecyn cymorth hwn hefyd yn hygyrch i staff y Brifysgol sy'n ymwneud â chefnogi'r dysgwyr hyn. Mae'r pecyn cymorth i ddysgwyr ar-lein yn cynnig amrywiaeth o wybodaeth yn cynnwys, er enghraifft, pa gyrsiau sydd ar gael, sut y mae asesu yn gweithio, canllawiau ar achredu dysgu trwy brofiad blaenorol ac achredu dysgu ardystiedig blaenorol, a chyngor am ychwil a dulliau dysgu.
- **Pecyn cymorth cyflogwyr** – mae'r pecyn cymorth i gyflogwyr ar gael yn electroneg ar (<http://celt.glam.ac.uk/Learning-Through-Employment/Employers-Toolkit>) ac hefyd ar gael mewn fformat copi caled. Mae'r pecyn cymorth hwn yn amlinellu rhai o'r materion sy'n wynebu cyflogwyr sy'n ystyried cefnogi dysgwyr seiliedig ar waith, yn cynnwys y cyfyngiadau ac i ba raddau y gall cyflogwyr gyfranogi, os ydynt yn dewis, mewn: trafodaethau'r Brifysgol am anghenion sgiliau, cymwysterau a hyfforddiant yn y diwydiant; grwpiau gweithio cwricwlwm; dylunio unedau o'r cwrs; cyflenwi unedau o'r rhaglen; cynnig cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith, prosiectau, lleoliadau a phrofiad gwaith i fyfyrwyr; asesu gwaith myfyrwyr; a chynnig cynrychiolaeth ar baneli cyflogwyr. Mae'r pecyn cymorth hefyd yn amlinellu'r gefnogaeth ychwanegol y gellir ei chynnig gan gyflogwyr i'r Brifysgol

y tu allan i unrhyw rôl seiliedig ar waith, megis ymddwyn fel: siaradwr/darlithydd gwadd; pwynt cyswllt ar gyfer cyflogaeth i raddedigion; croesawydd ar gyfer ymweliadau diwrnod gan fyfyrwyr; a chyflogwr myfyrwyr ar sail rhan-amser yn ystod y gwyliau ac ar y penwythnos.

- **Pecyn cymorth darlithwyr** – mae'r deunyddiau cymorth i ddarlithwyr (ar gael ar <http://celt.glam.ac.uk/Learning-Through-Employment/Lecturers-Toolkit>) hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar reoli rhaglenni dysgu seiliedig ar waith, cefnogi dysgwyr seiliedig ar waith ac asesu dysgu seiliedig ar waith er mwyn hwyluso lefel deg o gymorth i ddysgwyr seiliedig ar waith ar bob lefel, yn annibynnol o'r gefnogaeth unigol gan diwtoriaid a allai fod yn newidiol ar draws rhaglenni.

Myfyrdod/effaith:

Mae'r agenda cyflogadwyedd a sgiliau yn cael ei yrru gan gyflogwyr; Cyngorau Sgiliau Sector, cyrff proffesiynol a'r Llywodraeth. Yng Nghymru, mae heriau penodol hefyd wedi cael eu cyfieithu mewn i bolisiau a strategaethau a roddir at ei gilydd gan Lywodraeth Cymru ac mae Sefydliadau Addysg Uwch wedi tueddu i roi polisiau eu hunain at ei gilydd fel ymateb i'r gyrrwyr hyn. Fodd bynnag, mae'r cwestiwn yn dal i fodoli o sut y gall Sefydliad Addysg Uwch sicrhau'n well ei fod yn cyflenwi'n ymarferol beth sydd yn ei bolisiau.

Er gwaethaf rhai enghreifftiau o ymarfer da mewn dysgu ar gyfer cyflogaeth, a dysgu trwy gyflogaeth ar hyd a lled y sefydliad, nid yw cyfleoedd gwirioneddol ar gyfer dysgwyr i gael achrediad ar gyfer dysgu anffurfiol bob amser ar gael yn ymarferol i bob myfyriwr y Brifysgol, er bod polisi'r Brifysgol yn cynnwys y rheoliadau a'r prosesau ar gyfer achredu dysgu trwy brofiad.

Mae'r fframwaith Dysgu Trwy Gyflogaeth yn sefydlu'r tybiant o raglenni a ddylunir mewn partneriaeth â chyflogwyr; fel y gellir ateb anghenion sgiliau penodol sy'n berthnasol i'r cyd-destun yng Nghymru, yn cynnwys cyfleoedd a grewyd gan sefydliad Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd (UhoVI).

Mae'r fframwaith Dysgu Trwy Gyflogaeth yn galluogi'r rhaglenni ar bob lefel AU i'w dylunio mewn partneriaeth â chyflogwyr; er mwyn ateb anghenion sgiliau penodol sy'n berthnasol i'r cyd-destun yng Nghymru. Mae dilysu'r fframwaith cragen Dysgu Trwy Gyflogaeth a'r disgrifwyr modiwl amlinellol yn hwyluso mabwysiadu ehangach o ddysgu seiliedig ar waith ar draws Grŵp Morgannwg.

Academi Newid yr Academi Addysg Uwch: Dysgu Trwy Gyflogaeth

Prifysgol Morgannwg (Sefydliadol – mewn dau gyfnod yn ymwneud â dwy gyfadran ymhob cyfnod)

Geiriau allweddol: newid sefydliadol, dysgu trwy gyflogaeth

Nod:

- i annog staff academiaidd yng Nghyfadrannau Iechyd, Chwaraeon a Gwyddoniaeth ac Ysgol Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol Caerdydd i adeiladu cyfleoedd ar gyfer dysgu trwy gyflogaeth i mewn i gwricwla cyrsiau sefydledig gan ddefnyddio'r fframwaith dilys Dysgu Trwy Gyflogaeth.

Description/approach:

Cyflwynwyd cynnig gan y Brifysgol i dîm Academi Newid yr Academi Addysg Uwch yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer newid sefydliadol wrth gyflwyno cyfleoedd eang ar gyfer Dysgu Trwy Gyflogaeth. Mae fframwaith dilys o fodiwlau ar bob lefel gan y Brifysgol, y gellir eu defnyddio gan staff academiaidd i gynnwys Dysgu Trwy Gyflogaeth yn eu cyrsiau presennol.

Mae dull gweithio'r Academi Newid yn awrgymu bod sefydliadau yn defnyddio trawstoriad o staff i ddod â menter i ymarfer sefydledig ac mae'r Brifysgol wedi creu Grŵp Gweithrediadau dan arweinyddiaeth y Pennaeth Datblygu Addysgol gyda chymysgedd o staff academiaidd profiadol: y rheiny sy'n weddol newydd i addysgu AU, un Pennaeth Adran a staff o Ganolfan Rhagoriaeth Dysgu ac Addysgu. Yn ogystal â hyn, rydym yn ffodus ein bod wedi diogelu amser cyflogwr lleol i fod yn rhan o'r Grŵp. Mae Grŵp Llywio prosiect hefyd wedi'i gadeirio gan y Dirprwy Is-Ganghellor Academaidd a Datblygu Busnes ac yn cynnwys Deoniaid y cyfadrannau sy'n cymryd rhan, Is-Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac arweinydd y prosiect.

Mae ymgysylltu staff academiaidd ymhob un o'r cyfadrannau wedi'i hwyluso drwy alw am gynigion sy'n amlinellu sut y bydd y fframwaith Dysgu Trwy Gyflogaeth yn cael ei ddefnyddio yn y rhaglen astudio. Bydd cynigion yn cael eu hystyried gan y Grŵp Gweithrediadau a bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn taliad unigol i'w ddefnyddio fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Deilliannau ragwelir:

Gobaith u tîm prosiect yw y bydd pob cyfadran yn cyflwyno nifer o gynigion ac y bydd staff yna'n gweithio gyda'i gilydd i ffurfio cymuned o ymarfer sy'n ymgysylltu â chyfleoedd Dysgu Trwy Gyflogaeth. Bydd y grŵp wedyn yn darparu torf o staff academiaidd sy'n ymwneud â chreadigaeth cwricwla Dysgu Trwy Gyflogaeth.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Hyd yn hyn, mae 12 o gynigion wedi'u derbyn, yn manylu sut y bydd dysgu try gyflogaeth yn cael ei sefydlu ar hyd 24 modiwl ar lefel israddedig a graddedig.

Heriau/cyfleoedd sicrhau ansawdd neu gwella ansawdd penodol a grewyd gan y fenter hon:

Dilyswyd y fframwaith Dysgu Trwy Gyflogaeth fel set o fodiwlau cragen y gellir eu poblogi â chynnwys yn dibynnu ar y ddisgyblaeth y mae'r dysgwr yn ymgysylltu â hi. Mae agweddau sicrhau ansawdd y fframwaith yn gryf a derbyniwyd digwyddiad dilysu llawn dan gadeiryddiaeth uwch aelod staff y Brifysgol gan y rhaglen. Fe'i hystyriwyd yn hanfodol i'r fframwaith gael ei ddilysu cyn ei hyrwyddo ymysg staff a chyflogwyr er mwyn gallu ymateb yn gadarnhaol ac effeithiol i ofynion cyflogwyr.

Myfyrdod/effaith:

Ar hyn o bryd, mae'r prosiect yn mynd yn ei flaen yn dda. Mae'r galw am gynigion wedi arwain at lefel gadarnhaol o ddiddordeb gyda staff yn ymgymryd yn arloesol â datblygiad cyfleoedd Dysgu Trwy Gyflogaeth. Bydd effaith y prosiect yn cael ei gwerthuso yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

Prosiectau Partneriaeth mewn Chwaraeon

Prifysgol Cymru, Casnewydd (Dyfarniad)

Geiriau allweddol: gwneud damcaniaeth academaidd yn berthnasol i ymarfer proffesiynol, profiad gwaith

Nod:

- i alluogi myfyrwyr sy'n astudio Chwaraeon i weithredu eu gwybodaeth academaidd yn ymarferol mewn bywyd gwirioneddol i wella eu sgiliau a'u profiadau proffesiynol.

Disgrifiad/dull:

Mae'r tîm Chwaraeon wedi bod yn gweithio gyda'r awdurdod lleol a chyryff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol i sefydlu partneriaethau i fyfyrwyr trwy fodiwlau a gydnabyddir a phrofiadau gwirioneddol mewn bywyd.

Enghraifft o hyn yw Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru (FAW) sydd ar hyn o bryd yn cynnig pedwar safle i fyfyrwyr ymgeisio amdanynt trwy gais a chyfweliad. O ganlyniad i hyn, rhoddwyd swyddi i bedwar o fyfyrwyr mewn dau faes gwaith allweddol (cynhwysiad a datblygu clybiau) yng Nghymoedd Gwent. Mae'r myfyrwyr yn amrywio o ddau fyfyrwr sy'n defnyddio hyn fel rhan o'u modiwl Ymarfer Proffesiynol Lefel 5, i un myfyrwr presennol yn yr ail flwyddyn ac un arall yn y drydedd flwyddyn. Mae'r ddau olaf yn defnyddio hyn i ddatblygu rhagor o sgiliau cyflogadwyedd, gyda'r gobaith o arwain at yrfa yn y maes hwn o waith.

Mae Awdurdod Lleol Casnewydd yn enghraifft arall, ac maent yn ddiweddar wedi hysbysebu a chynnal cyfweliadau ar gyfer naw lleoliad gyda ni yn amrywio o Swyddog Ymchwil a Monitro (x3), i Hyfforddwr Chwaraeon a Thîm Gweithgareddau Corfforol (x5) a Gwirfoddolwr Marchnata Tîm Chwaraeon a Gweithgareddau Corfforol (x1), gan gynnig ystod eang o sgiliau cyflogadwyedd i'n myfyrwyr.

Deilliannau a ragwelir:

Myfyrwyr:

- datblygiad proffesiynol parhaus wrth weithredu dysgu academiaidd i broblemau gwirioneddol ym maes chwaraeon;
- cyfle i gael mewnwelediad i a phrofiad o weithio mewn amgylchedd proffesiynol sy'n canolbwyntio ar chwaraeon.

Sefydliad:

- cydweithrediad parhaus â chyflogwyr sy'n canolbwyntio ar chwaraeon yn yr ardal leol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Myfyrwyr:

- myfyrwyr yn cael safleoedd profiad gwaith ac yn gwella eu sgiliau proffesiynol ymarferol yn llwyddiannus mewn amgylchedd allanol;
- cael cyflogaeth â thâl o waith llawn-amser i waith tymhorol.

Sefydliad:

- cydweithrediad parhaus â chyflogwyr allanol y maes chwaraeon, gyda chyflogwyr yn gofyn am fwy o help ar hyd eu mentrau.

Myfyrdod/effaith:

Mae profiad gwaith yn elfen bwysig o wella'r profiad dysgu myfyrwyr a phriodoleddau graddedigion. Cyfarwyddwyd y myfyrwyr i drefnu eu lleoliad eu hunain trwy ein cronfa ddata neu drwy eu cysylltiadau lleol, gan ganiatáu ymreolaeth lawn yn eu cyfeiriad yn y dyfodol a'r maes cyflogadwyedd o ddiddordeb.

Trwy ymgysylltu â phartneriaid rydym wedi gweld cynnydd yn ein myfyrwyr dros flynyddoedd diweddar sy'n cael cyflogaeth werthfawr tra eu bod yn israddedigion ac ar ôl graddio. Enghraifft o lwyddiant yw uned datblygu chwaraeon lleol ble mae chwech allan o 18 o swyddi yno wedi'i lenwi gan gyn-fyfyriwr y Brifysgol.

Dysgu Hyblyg mewn Senarios Cyflogaeth a Chymuned (FLECS)

Prifysgol Cymru, Casnewydd (Sefydliadol)

Geiriau allweddol: dysgu seiliedig ar waith, dysgu gwell trwy dechnoleg

Nod:

- i alluogi mynediad gwell i gwricwlwm modiwlwr sy'n canolbwyntio ar y cyflogwr trwy ddulliau dysgu hyblyg.

Disgrifiad/dull:

Gosodwyd targed gan Adroddiad Leitch (2006) i gael 40% o'r boblogaeth o oedolion yn gymwysedig i Lefel 4 erbyn 2010.

Yn ôl ymateb strategaeth sgiliau ehangach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, 2008), roedd angen i'r rheiny a oedd yn y gweithle'n barod i ennill sgiliau lefel-uwch. Ar ôl hyn, arddangoswyd bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i godi lefel sgiliau'r gweithlu gan gyfrannu at ddatblygu'r unigolyn, busnes a'r gymuned, gan Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch i Gymru (Er Mwyn ein Dyfodol, Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, 2009).

Roedd y cefndir hwn yn darparu'r wybodaeth ar gyfer datblygu prosiect dwy-flynedd (2008-2010) ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd, wedi'i ariannu drwy Adolygiad Graham (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006). Roedd hyn yn cynnwys ymchwil y farchnad allanol, dadansoddiad bwlch, a modiwlau dilynol cynnwys-benodol ac adfyfyrion i symud cwricwlwm cryno a byr a arweinir gan gyflogwyr, ac sy'n defnyddio technolegau modern, yn ei flaen.

Deilliannau a ragwelir:

Dilyswyd ym mis Mehefin 2010, roedd allbynnau FLECS yn cynnwys 22 o fodiwkau dilys o werth credyd arwyiol ar draws y Brifysgol. Roedd hyn yn galluogi i'r profiad dysgu i gael ei gynnig yn hyblyg gyda dysgu ac asesu fel cydrannau ar wahân, gan ddarparu agwedd achredu ychwanegol i gyrsiau byr:

Yn ystod 2011-12, mae FLECS yn symud ymlaen i gynnwys modiwlau 'cragen' 20-credyd ar Lefel 4-7 gyda deilliannau dysgu dilys yn galluogi dysgwyr seiliedig ar waith i weithredu eu dysgu trwy brofiad i'w cwricwlwm modiwlwr dilys.

Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr achredu datblygiadau ychwanegol sy'n canolbwyntio ar sgiliau, e.e. trwy waith rhan-amser neu brosiectau profiad gwaith.

Tystiolaeth deilliannau gwirioneddol:

Roedd y fenter FLECS yn sail i seminar ymarfer seiliedig ar dystiolaeth yr Academi Addysg Uwch ym mis Hydref 2010 gyda phapur briffio sector cysylltiol y DU.

Myfyrdod/effaith:

O safbwynt myfyrwyr, mae'r fenter FLECS yn galluogi dysgwyr seiliedig ar waith i ddatblygu cwricwlwm modiwlwr i adlewyrchu eu hanghenion gwaith. Mae'n eu galluogi hefyd i weithredu eu profiadau fel eu bod yn berthnasol i ddysgu academaidd trwy fodiwlau 'cragen'.

O safbwynt sefydliadol, mae'r fenter FLECS yn parhau i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr seiliedig ar waith i ymgysylltu â dysgu addysg uwch achrededig.

Adnodd ôl-raddedig Academi Cyfryngau Skillset

Prifysgol Cymru, Casnewydd (Cyfadran)

Geiriau Allweddol: cyflogadwyedd, datblygu sgiliau, dysgu gydol oes

Nod:

- i roi'r graddedigion Animeiddio a Ffilm gorau ar y trywydd cyflym i'r diwydiant

Digrifiad/dull:

Rhaglen ddwys chwe mis o ddabtlygiad personol i 26 o raddedigion (animeiddio a ffilm) sy'n cynnwys lleoliadau cyflogedig, cynlluniau dabtlygu personol, cyngor gyrfa a rhaglen cynefino a gydgysylltir gan Gyfle trwy aelod staff Academi Sgrîn Skillset Cymru. Cynhaliwyd y cynllun hwn yn 2009-10.

Rhodddwyd proffeil at ei gilydd gan y cydgysylltydd yn nodi cryfderau sgiliau a bylchau a chynllun hyfforddiant i ddilyn. Yna, crewyd cynllun gan y cydgysylltydd i bob person graddedig gan ddevis cyrsiau byr priodol i fyfyrwyr Academi Sgrîn Skillset Cymru eu mynychu. Crewyd cyrsiau hefyd oedd wedi'u teilwra ar gyfer y cynllun mewn partneriaeth â BECTU (undeb masnach y diwydiant cyfryngau ac adloniant).

Sicrhawyd gan y cydgysylltydd bod cwmnïau diwydiant yn rhan o'r trafodaethau o ran lleoliadau ac interniaethau. Roedd y cwrs Cyfleuster Ôl-raddedig yn cynnwys cwrs Cynefino tair wythnos. Trefnwyd cyfarfodydd misol gyda'r graddedigion dros gyfnod eu cwrs gan y cydgysylltydd, a threfnwyd iddynt gael sesiynau cyngor gyrfa oedd â'r Cynghorwyr Skillset. Cafwyd cynnydd a datblygiad y graddedigion ar y lleoliad ei fonitro gan y cydgysylltydd hefyd.

Deilliannau a ragwelir:

- cyflogadwyedd cynyddol o raddedigion fel staff neu weithwyr ar eu liwt eu hun yn y diwydiant cyfryngau creadigol yng Nghymru;
- mae nifer o leoliadau ac interniaethau wedi eu diogelu.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol

Mae nifer o leoliadau ac enghreifftiau o ymgysylltu myfyrwyr â'r cynllun. Mae enghreifftiau o swyddi yn cynnwys:

- cydgysylltydd cynhyrchu, Boomerang Productions;
- rhedwr llawr; Casualty;
- arbenigwr ôl-gynhyrchu ar ei liwt ei hun, Envy Post, London;
- adran gelf, Dr Who;
- golygydd, Dragon DI;
- dylunydd digidol ar ei liwt ei hun;

- animeiddiwr, Beryl Productions;
- animeiddiwr;
- rhedwr, Time Team/C4;
- cynorthwydd cynhyrchu ar ei liwt ei hun.

Myfyrdod/effaith:

Myfyrdod un fyfyrwr a ymgysylltodd yn llwyddiannus â'r cynllun:

Ers graddio yn 2008 o BA (Anrh) Cyfryngau a Pherfformiad rydw i wedi dibynnu ar gefnogaeth gan yr Academi Sgrîn a Chyfryngau i ddilyn y llwybr gyrfa dwi wedi ei ddewis. Gyda'r gefnogaeth hon, dwi wedi gallu mynychu dosbarthiadau meistr a dangosiadau sgrînio gyda sesiynau Cwestiwn ac Ateb gyda phobl broffesiynol y diwydiant. Mae'r rhain wastad yn gyfleoedd gwych i rwydweithio â chyflogwyr potensial neu gydweithwyr posib y dyfodol. Yn ddiweddar, es i ddangosiad sgrînio BAFTA o 'Monsters' – roedd y sesiwn Cwestiwn ac Ateb yn ysbrydolaeth fawr ar ôl clywed am y dulliau diddorol ac unigryw o wneud y ffilm.

Roeddwn yn lwcus iawn i gael fy newis am y Cyfleuster Ôl-raddedig ym mis Ionawr, 2010. Roeddwn wedi cyrraedd pwynt yn fy ngyrfa ble'r oeddwn wedi llwyddo i gael fy swydd gyntaf ond doeddwn i ddim yn gwybod sut i symud ymlaen a chael safle sicr yn y diwydiant. Roedd y Cyfleuster Ôl-raddedig yn ateb perffaith i'r broblem hon. Yn ystod y cynllun, es i ar amrywiaeth o gyrsiau, yn cynnwys cwrs Ymchwil Cynhyrchiad Academi'r BBC, a chefais gyfnod gwerthfawr o brofiad gwaith gyda BAFTA Cymru. Ers i mi orffen y Cyfleuster Ôl-raddedig rydw i wedi gallu dod o hyd i waith parhaus gyd chwmmiau cynhyrchu yng Nghymru, felly dwi'n sicr ei fod wedi helpu fy CV yn fawr.

Mae'r Academi Cyfryngau yn ffordd wych i raddedigion barhau i ddatblygu sgiliau allweddol, i rwydweithio a chael y teimlad o gymuned sydd angen mewn diwydiant ar ei liwt ei hun. Dwi wedi cael y cymorth sydd angen i ddilyn fy llwybr gyrfa. Heb yr Academi, dwi'n meddwl y byddwn i wedi rhoi'r gorau iddi yn fuan ar ôl graddio!

Rhaglen Mewnwelediad Strategol (SIP)

Prifysgol Cymru, Casnewydd (Sefydliadol)

Geiriau allweddol: gwneud damcaniaeth academiaidd yn berthnasol i ymarfer proffesiynol, datblygiad proffesiynol parhaus

Nod:

- i alluogi staff i weithredu eu gwybodaeth academiaidd i ddatrys problemau gwirioneddol er mwyn gwella eu sgiliau ymarferol proffesiynol a symud ymlaen â chysylltiadau lefel-strategol â chyflogwyr i annog datblygiadau cydweithredol parhaus.

Disgrifiad/dull:

Mae lleoliadau Rhaglen Mewnwelediad Strategol (SIP) wedi bod ar gael i staff Prifysgol Cymru, Casnewydd, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a Phrifysgol Morgannwg ers 2008 i weithio gyda sefydliadau partner y tu fas i faes addysg.

Maent wedi'u hariannu gan HEFCW ac yn chwarae rôl bwysig mewn cefnogi, annog a hybu gweithrediad gwybodaeth academiaidd mewn amgylchedd proffesiynol ymarferol, gan alluogi i amrywiaeth o staff academiaidd ennill profiad o ddysgu mewn cyflogaeth. Mae cysylltiadau rhwng staff academiaidd a chyflogwyr o ganlyniad i hyn, wedi cael effaith uniongyrchol ar ddatblygiad pellach y profiad dysgu myfyrwyr trwy gynhyrchu astudiaethau achos, briffiau byw i fyfyrwyr a mewnbwn darlithwyr gwadd.

Deilliannau a ragwelir:

Staff:

- datblygiad proffesiynol parhaus o ran gweithredu gwybodaeth academiaidd i ddatrys problemau gwirioneddol;
- cael y wybodaeth ddiweddaraf ar yr amgylchedd allanol sy'n newid yn gyflym;
- datblygiadau prosiect cydweithredol yn ymwneud ag academia a phartneriaid corfforaethol.

Sefydliad:

- ymwybyddiaeth well o gyfleoedd i weithredu damcaniaeth mewn sefyllfaoedd ymarferol;
- hybu arloesedd.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Staff:

- cwblhau Prosiectau Mewnwelediad Strategol gyda deilliannau wedi'u cyflawni ar gyfer aelod staff academiaidd;
- cydweithrediad parhaus rhwng aelodau staff academiaidd mewn gweithredoedd arloesol.

Sefydliad:

- cydweithrediad parhaus rhwng sefydliad a staff;
- cyfranogiad mewn ceisiadau ariannu dilynol a phrosiectau cydweithredol.

Myfyrdod/effaith:

Astudiaeth achos

Cwblhawyd lleoliad SIP yn ddiweddar yn Timothy Everest (teilwr ac atelier arbenigol) yn Spitalfields, Llundain, gan Christian Hutter, uwch-ddarlithydd mewn Dylunio Ffasiwn. Roedd Christian yn frwdfrydig i ddeall sut y mae teilwra pwrpasol ac arbenigol yn goroesi yn economi y 21ain ganrif, pan fod siwtiau a fasgynhyrchir yn rhad yn domineiddio'r farchnad, er mwyn gwella'i addysgu a'i ymchwil.

O'u ty Sioraidd hyfryd, mae tîm eithafol o ymroddedig Timothy Everest yn creu dillad wedi'u crefftio â llaw ar gyfer cwsmeriaid sy'n disgwyl yr ansawdd uchaf. Maent yn datblygu nanotechnoleg ar faes y gad i ddylunio cynnyrch addas-at-bwrpas, swyddogaethol, cywrain a dymunol ar gyfer ffordd o fyw modern y ddinas.

Roedd Christian yn cael gweld y dulliau traddodiadol a ddefnyddir gan wneithurwr cotiau meistr Annika Caswell, gan ddarparu tri diwrnod diddorol o arsylwi o'r prosesau allweddol i gyd a ddefnyddir. Rhoddwyd cyfle i Christian hefyd dreulio amser gyda'r tîm dylunio i weld sut y mae Timothy yn amrywiaethu enw da'r brand drwy arloesi dillad ar gyfer y llinellau poblogaidd o ddillad seiclo y mae'n ymgynghori gyda nhw.

Mae cyfleoedd am leoliadau yn awr yn dod i'r amlwg ar gyfer myfyrwr ar y rhaglen Ddylunio Ffasiwn, gyda briffiau dylunio ffasiwn eraill yn cael eu trafod hefyd – enghraifft arall o sut y mae cysylltu â diwydiant yn gyffrous ac yn hanfodol. O safbwynt staff unigol, darparwyd dysgu a datblygiad proffesiynol parhaus mewn amgylchedd gweithio creadigol gan y fenter hon, ac ymwybyddiaeth gynyddol o'r heriau a wynebir gan sefydliad llwyddiannus sy'n gweithio yn y farchnad byd-eang.

O safbwynt sefydliadol, mae'r profiadau a enillwyd a'r dulliau a fabwysiadwyd wedi dylanwadu ar a chael effaith ar ddatblygiad proffesiynol parhaus staff academiaidd. Mae hyn yn elfen bwysig o effeithio ar brofiad dysgu'r myfyriwr a gwella priodoleddau graddedigion.

Gwella dysgu mewn cyflogaeth drwy gyfnewid

Prifysgol Cymru, Casnewydd (Sefydliadol)

Geiriau allweddol: gwella ymarfer proffesiynol, dysgu rhyngwladol

Nod:

- i alluogi cyflogwyr gael dealltwriaeth well o ddysgu rhyngwladol trwy ymgysylltu â chyfleoedd cyfnewid.

Disgrifiad/dull:

Mae efeillio Kutaisi a Chasnewydd yn ymestyn yn ôl i'r 1990au cynnar. Mae llawer o waith wedi'i gwblhau o ran datblygu cymdeithasol, economaidd a dilwylliannol. O ran addysg, mae'r Prifysgolion (Casnewydd ac Akaki Tsereteli State (a adnabyddir hefyd fel Prifysgol Kutaisi)) yn parhau i gael perthynas gryf ac mae hyn yn ehangu i wasanaethau cymorth fel y llyfrgell.

Mae cysylltiadau hen sefydledig rhwng y llyfrgelloedd yng Nghasnewydd a Kutaisi, gan fod staff o Gasnewydd yn y gorffennol wedi ymweld â Georgia, ac yn ddiweddar, gweithiodd Giorgi Chichinadze yn llyfrgell Casnewydd (ac yn y ddinas yn gyffredinol).

Deilliannau a ragwelir:

Mae'r cyfnewidiadau yn darparu nifer o gyfleoedd dysgu ar gyfer staff a'r adran, yn cynnwys dysgu am ddefnyddio a hyrwyddo adnoddau electronig, darparu'r gwasanaeth cylchrediad a rhyngweithio gydag adrannau eraill y Brifysgol.

Tystiolaeth deilliannau gwirioneddol:

1. Mae casgliad electronig Casnewydd wedi datblygu dros y deng mlynedd diwethaf ac roedd yn ddiddorol i gael y cyfle i siarad â Giorgi yn bersonol a gwerthfawrogi'r dulliau darparu gwybodaeth y mae Prifysgol Kutaisi hefyd yn archwilio ar hyn o bryd (er enghraifft, maent yn defnyddio 'Academic Search Premier EBSCO'.) Drwy ymweld â'r llyfrgell, roedd yn bosib edrych ar sut yr oeddent yn hyrwyddo'u catalog ar-lein. Mae'n glir fod defnydd adnoddau ar y we a'u hyrwyddo ar-lein yn dod yn gynyddol bwysig i fyfyrwyr ac mae mwy a mwy o adnoddau TGCh yn cael eu sefydlu.
2. Cafwyd profiad ymarferol o sut y mae gwasanaeth llyfrgell prifysgol arall yn darparu gwaith cylchrediad a gwasanaethau cwsmeriaid. Mae gan Kutaisi nifer o ystafelloedd llyfrgell unigol o fewn y prif gampws, gyda rhai'n fwy modern nag eraill. Er gwaethaf defnyddio catalog ar-lein, nid oes unrhyw nodwedd cylchrediad o fewn system rheoli'r llyfrgell. Felly, mae'r cylchrediad i gyd yn dal i gael eu ddarparu drwy system mynegai cerdiau. Er bod hyn yn ymddangos fel system hen ffasw'n, roedd yn gweithio'n llwyddiannus iawn.
3. Drwy dreulio amser ag adran leitheg Prifysgol Kutaisi, datblygwyd dealltwriaeth well o'r berthynas rhwng y llyfrgell ac adrannau eraill. Mae'n glir fod dibyniaeth fawr ar ddeunyddiau printiedig a bod y llyfrgell yn cefnogi hyn. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan y llyfrgell yn cael ystafelloedd darllen arbennig i ddarparu cefnogaeth dysgu i'r myfyrwyr hyn.

Myfyrdod/effaith:

Roedd y prif lyfrgell yn gwneud defnydd o ardaloedd astudio unigol, ond roedd hefyd yn datblygu ei ardal TG er mwyn ateb dau fath o anghenion dysgu gwahanol. Roedd yn ddi-ddorol nodi bod y gwasanaeth llyfrgell yn ceisio cefnogi amrywiaeth o ddulliau dysgu (dysgu unigoleddig mewn un ystafell, dysgu grŵp mewn ystafell arall a desg cylchrediad arbennig mewn trydedd ystafell).

Roedd dyluniad prif adeilad y campws yn addas ar gyfer cael rhannau o'r llyfrgell wedi'u lleoli yn agos at yr adrannau academaidd, ac felly, yn wagleoedd cryf a chefnogol ar gyfer anghenion dysgu. Roedd hyn yn gwneud i mi fyfyrion ar sut 'rydym yn ystyried darpariaeth gwasanaethau yng Nghasnewydd. A ddylen ni fod yn adeilad corfforol i bobl ymweld ag ef, neu yn llyfrgell electronig i fyfyrwyr logio i mewn iddi? Gall ymweld â a gweithio gydag adrannau academaidd ein helpu i nodi gofynion dysgu myfyrwyr ac anghenion ymchwil ac addysgu dymunol staff.

LATERAL (Rhyddhau Doniau drwy Gydnabyddiaeth ac Achrediad Dysgu â Chymorth Technoleg)

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Sefydliadol)

Geiriau allweddol: achrediad dysgu profiadol blaenorol (APEL), ymarfer adfyfyrion, dysgu seiliedig ar waith, damcaniaeth addysg, dwyieithrwydd.

Mae'r fenter hon yn ymwneud ag achrediad dysgu profiadol blaenorol ac yn ymwneud yn benodol â datblygiad dull arloesol, gyda sicrwydd ansawdd i gyflawni safiad uwch drwy APEL. Mae'n canolbwyntio ar strywthur, deialog cynorthwyedig ac ymgysylltu cyflogwyr a dysgwyr drwy amgylchedd dysgu â chymorth technoleg sydd yn hyblyg a chefnogol. Mae'n adlewyrchu'n benodol nodweddion cymdeithasol-dddiwylliannol ac economaidd Cymru drwy ddarparu amgylchedd dysgu dwyieithog sy'n ymatebol i anghenion y dysgwyr seiliedig ar waith, tra ar yr un pryd yn darparu gwagle cefnogol, cydweithredol a chyfleoedd i ehangu cyfranogaeth i grwpiau sydd fel arall wedi'u hymyleiddio.

Mae rhai o'r cyrsiau a gyfeirir atynt yn yr astudiaeth achos hon yn rhan o'r rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith a ariennir gan Gronfa Gydyfeirio Cymdeithasol Ewropeaidd yr UE, trwy Lywodraeth Cymru.

Nod:

Y nod yw datblygu, cynnal peilot a gweithredu amgylchedd dysgu â chymorth technoleg dwyieithog i gefnogi'r dysgwyr seiliedig ar waith mewn cyflenwi achrediad ar gyfer eu dysgu trwy brofiad trwy fyfyrdod.

Mae'n seiliedig ar ymchwil gweithredu y crewyd proses trwyddi i gefnogi dysgwyr yn eu cais am gredyd APEL i'w gyfrannu tuag at ddyfarniad lefel-brifysgol.

Y bwriad hefyd yw creu mecanweithiau gweithredu sydd â dull unffurf ar hyd sectorau/unigolion/ardaloedd cynllun gofodol/lefelau Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru ac i ddefnyddio TGCh ar gyfer ymgysylltu cyflogwyr a rhith-amgylcheddau dysgu.

Mae Cymru yn wlad ddwyieithog gyda'i dwy iaith, Cymraeg a Saesneg â statws hafal.

Felly, rhaid cefnogi iaith dewis y dysgwyr yn briodol ac mae angen deall ffactorau penodol wrth gynllunio ar gyfer y dysgwyr sy'n gweithio yng Nghymru.

Y cynllun oedd cynnwys ideoleg APEL a damcaniaethau Dysgu Seiliedig ar Waith mewn i broses a fydd yn hygyrch i ddygwyr o bellter er mwyn iddynt hawlio credyd priodol ar gyfer eu Dysgu Seiliedig ar Waith.

Gallent wedyn gwblhau eu dyfarniad trwy'r fframwaith Ymarfer Proffesiynol, a lansiwyd yn swyddogol yng Ngholeg Prifysgol Y Drindod (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant erbyn hyn) ar 1 Mai 2009 gan Andrew Davies, AC. Nod y fframwaith hwn yw darparu cyfleoedd dysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr sy'n hygyrch, hyblyg a chynhwysol. Mae'r rhaglen ddilys hon yn darparu pob dysgwr â'r cyfle i symud ymlaen i gyflawni dyfarniad llawn ar y lefel briodol o astudio.

Bydd y prosiect arfaethedig yn targedu cyflogwyr/gweithwyr yn y sector preifat yng Ngorllewin Cymru. Mae cydnabyddiaeth dysgu trwy brofiad yn arbennig o berthnasol i grŵp o bobl sydd yn y gweithle ac sydd wedi cyflawni gwybyddiaeth lefel-uchel ac ymarfer proffesiynol trwy ddatblygiad personol a phroffesiynol parhaus. Mae achrediad dysgu trwy brofiad blaenorol (APEL) sy'n seiliedig ar ddatblygu seiliedig ar waith yn ddibwys ar hyn o bryd, er bod llawer o weithgareddau datblygu staff lefel-uwch yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae'r ffaith nad yw dysgu a hyfforddiant seiliedig ar waith yn cael eu hasesu'n aml yn golygu nad yw'r dysgu a gyflawnir yn cael cydnabyddiaeth na chredyd ehangach.

Felly, er bod gwerth APEL yn cael ei dderbyn, nid yw'n digwydd yn ymarferol mor aml ag y dylai, felly ni chaiff gwerth gwybodaeth seiliedig ar ymarfer a phrofiad sy'n seiliedig ar waith bob amser yn cael ei gyfieithu i gredydau ar lefel AU.

Fodd bynnag, mae hyn yn digwydd yn llwyddiannus ble y mae dysgu yn berthnasol i anghenion cyrsiau traddodiadol seiliedig yn y sefydliad mewn meysydd pwnc-benodol. Bydd arddangos gwerth drwy achredu'r dysgu seiliedig ar waith yn uniongyrchol fanteisiol i ddygwyr a'u cyflogwyr ac yn darparu fforwm i gefnogi cyflogwyr yn eu weithgareddau hyfforddi seiliedig ar waith.

Disgrifiad/dull:

Gall cyfranogwyr gael achrediad ar gyfer eu dysgu trwy brofiad blaenorol trwy'r broses a grewyd a gall y credyd hwn ffurfio rhan o ddyfarniad ar lefel brifysgol. Y credyd mwyaf y gellir ei ennill drwy'r broses hon yw dau draean o ddyfarniad a bydd cydran orfodol o'r credydau sy'n weddill yn brosiect seiliedig ar waith. Nid yw achredu dysgu blaenorol heb ei heriau, ac mae angen dull trylwyr; a arweinir gan ansawdd sydd wedi'i deilwra i'r unigolyn, ond sy'n gyson yn ei weithrediad.

Rydym wedi datblygu fframwaith gydag APEL ar gyfer dysgu seiliedig ar waith wedi'i fewnblannu o fewn mecanweithiau sicrhau ansawdd ac yn adeiladu ar Godau Ymarfer yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) a Fframwaith Ansawdd Cwricwlwm Cymru.

Mae llawer o ddeunyddiau dysgu wedi cael eu dyfeisio a'u datblygu er mwyn cefnogi dysgwyr gyda'u cais am gredyd ar gyfer eu dysgu blaenorol.

Cynhelir diwrnod cynefino ar gyfer y dysgwyr i gyd, er mwyn iddynt gael eu cyflwyno i gynnwys, strwythur, proses a'r deunyddiau dysgu. Maent hefyd yn cael cyfle i ymgysylltu â rhai o'r damcaniaethau sy'n tanatgu ymarfer.

Cyfwynir dysgwyr i'w tiwtoriaid personol, sydd ar gael trwy gydol y diwrnod i egluro cynnwys, gweithgareddau cefnogol, ac arwain dysgwyr trwy'r rhith-amgylchedd dysgu, a chytuno ar gynllun gweithredu. Rydym hefyd wedi cynnwys diwrnodau adolygu rheolaidd ac yn gwahodd pob dysgwr. Trefnir gweithgareddau gwahanol ar gyfer diwrnodau adolygu a gall dysgwyr fynychu faint bynnag ohonynt y maent yn dymuno. Mae cynnwys y diwrnodau adolygu yn amrywio ac mae'n aml mewn ymateb i adborth gan drafodaethau tiwtorial a gwerthusiadau diwrnodau cynefino. Yn ogystal â chynefino, diwrnodau adolygu a mynediad i'r rhith-amgylchedd dysgu, bydd pob dysgwr yn derbyn tair awr o gymorth dysgu unigol.

Mae'r prosiect hwn wrth natur yn gweithio ar draws sectorau; fodd bynnag, byddai'n ceisio cwrdd a'r sectorau craidd/galluogi, strategol bwysig a phwysig yn economaidd yn yr ardal Cydgyfeirio.

Deilliannau a ragwelir:

Deall APEL mewn Dysgu Seiliedig ar Waith er mwyn ceisio am gredyd cyffredinol yw beth a gyflawnir ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Nid yw hyn yn gysylltiedig i fodiwlau/cyrsiau/meysydd pwnc neu gymwysterau cyffredinol. Mae'n rhan o raglen dysgu/astudio y gall fyfyrwyr ennill dyfarniad Ymarfer Proffesiynol drwyddi. Cyflawnir y dystiolaeth am eu credyd i gyd drwy ddysgu seiliedig ar waith.

Pobl a Sefydliadau a Gynorthwywyd

Allbynnau	
Nifer sy'n cael mynediad i gymwysterau	180
Graddfa gwblhau	144
Cyflogwyr a gynorthwywyd	49
Cyfranogwyr sy'n cael mynediad i ddysgu pellach	51

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Erbyn diwedd Chwefror 2012, bydd 61 o fyfyrwyr wedi'u cynefino ar y rhaglen LATERAL gan eu sefydlu ar eu ffordd i ymgeisio am am hyd at dau draean o'u cymhwyster. Mae 15 arall wedi dangos diddordeb ac yn barod i gofrestru ar y rhaglen.

Mae'r mwyafrif o'r myfyrwyr hyn yn gofrestredig ar y rhaglen MA gan brofi bod y myfyrwyr o'r radd flaenaf a lefel uchel eu dysgu seiliedig ar waith. Y rhagwelediad yw bydd llawer o'r dysgwyr hyn yn graddio yn Haf 2013.

Myfyrdod/effaith:

Y catalydd ar gyfer y ddarpariaeth hon oedd cred bendant yn yr ideoleg o sicrhau bod dysgwyr seiliedig ar waith yn cael eu galluogi i ymgeisio'n llwyddiannus am gredyd cyffredinol ar gyfer eu dysgu lefel-brifysgol. Nodwyd hefyd nad oedd datblygiadau seiliedig ar waith, hyd yn oed os oeddent â sicrwydd ansawdd, yn cael cydnabyddiaeth y tu allan i'r gweithle. Mae dysgwyr yn synnu yn gyffredinol bod y dysgu y maent yn ymgymryd ag ef trwy brofiad, yn gallu cael ei drosi i gredyd AU.

Rydym yn gwerthuso'r isadeiledd yn barhaus i sicrhau bod dysgwyr seiliedig ar waith yn derbyn profiad gwerthfawr a chyferwerth ar gyfer eu dysgu. Mae materion sicrhau ansawdd yn cael eu cwestiynu'n gyson gan nad yw'r llwybr unigryw ac amrywiol hwn tuag at ddyfarniadau yn draddodiadol. Mae'r dysgu i gyd yn hollol seiliedig ar ddamcaniaeth.

Mae systemau TG yn parhau i fod yn her. Yn ychwanegol, rhaid ystyried profiad a gwybodaeth dysgwyr o TG. Mae rhaglenni yn hyblyg ac nid ydynt yn glynu at dermau academaidd traddodiadol. Gallent fod yn unigol a gallent gymryd llawer o amser. Fodd bynnag, mae'n bosib hefyd i drefnu carfannau. Mae trefnu'n parhau ac mae deunydd/systemau/prosesau/dysgu ac addysgu yn parhau i gael eu datblygu a'u haddasu i ateb anghenion y grŵp pwysig hwn o ddysgwyr.

Dyslecsia Cymru: cefnogi anghenion gweithwyr â dyslecsia yng Nghymru

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Dyfarniad)

Geiriau allweddol: dylunio cwricwlwm, dyslecsia, dilysu, asesu yn y gweithle

Nod:

Mae'r fenter hon yn ymwneud â dilysu rhaglen wedi'i theilwra'n arbennig ar gyfer Dyslecsia Cymru i hyfforddi aseswyr yn benodol i adnabod, ateb a chefnogi anghenion yr unigolyn â dyslecsia yn y gweithle.

Mae Dyslecsia Cymru yn sefydliad gyda sylfaen gryf mewn gweithio'n ddwyieithog ar gyfer pobl â dyslecsia yng Nghymru. Mae hanes nodedig gan yr elusen o weithgareddau hyfforddi mewn-gwasanaeth ac roedd yn chwilio am gyfle i gydweithredu mewn dylunio ac achredu rhaglen o hyfforddiant ar gyfer aseswyr yn y gweithle.

Nid oedd unrhyw hyfforddiant achrededig yn bodoli ar lefel addysg uwch yng Nghymru an Lloegr, a daeth yr elusen at y staff dysgu seiliedig ar waith ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant fel partneriaid yn y fenter hon.

Nod yr achrediad oedd ateb anghenion cyflogwyr a gweithwyr ar gyfer cefnogaeth briodol, gan ystyried Deddf Gydraddoldeb 2010. Nodwyd yr anghenion hyn mewn cynhadledd genedlaethol ar ddyslecsia yn y gweithle; cyflewyd diddordeb gan gyflogwyr y sector cyhoeddus a phreifat a'u gweithwyr ac yn enwedig cynrychiolwyr dysgu'r undeb.

Disgrifiad/dull:

Cafwyd cyfres o bump cyfarfod rhwng staff academaidd y Drindod Dewi Sant, a dau o ymddiriedolwyr Dyslecsia Cymru, Barbara Horsfall-Turner (Cadeirydd) a Simone McNeill (Ysgrifennydd), er mwyn drafftio'r rhaglen a'i pharatoi ar gyfer y dilysiad. Mae dau modiwl wedi'u datblygu a'u dilysu i ateb yr anghenion hyn:

Cyflwyniad i Asesu yn y Gweithle a Dyslecsia (deg credyd ar lefel 4)

Nod y modiwl hwn yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r prif faterion sy'n perthyn i dyslecsia mewn oedolion a sut mae'n effeithio ar eu perfformiad yn y gweithle. Erbyn diwedd y modiwl, dylai dysgwyr allu:

- arddangos dealltwriaeth o ddyslecsia mewn oedolyn;
- nodi anawsterau dysgu penodol eraill fel dyspracsia, dyscalcwlia, dysgraffia, Syndrom Asperger ac ADD mewn oedolion, a chyd-forbidrwydd;
- trafod pwysigrwydd sgrînio am ddyslecsia, gwybod sut i ddefnyddio prawf sgrînio oedolion a dadansoddi'r canlyniadau;
- ysgrifennu adroddiad ystyrion sy'n addas ar gyfer yr oedolyn sy'n cael ei sgrînio a'i gyflogwr yn manylu eu hanawsterau.

Asesir hyn gan bortffolio adfyfyrion sy'n cynnwys cyfrif o ddangosyddion o ddyslecsia mewn oedolyn, trafodaeth o ddau anhawster dysgu arall a sut y maent yn effeithio ar berfformiad yn y gweithle a gwerthusiad o ddulliau amrywiol o sgrînio ar gyfer dyslecsia.

Cydraddoldeb ar gyfer yr Unigolyn gyda Dyslecsia yn y Gweithle (deg credyd ar Lefel 4)

Nod y modiwl hwn yw galluogi'r dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a deallusrwydd o'r Ddeddf Gydraddoldeb 2010 o ran dyslecsia yn y gweithle. Mae'n disgrifio ac yn arddangos cyfrifoldebau'r cyflogwr mewn perthynas ag amrywiaeth o addasiadau rhesymol y gallent eu gwneud. Erbyn diwedd y modiwl, dylai dysgwyr allu:

- cydnabod a myfyrio ar y materion, goblygiadau ac effaith deddfwriaeth fel Deddf Gydraddoldeb 2010, ar ddyletswyddau a rhwymedigaethau cyflogwyr tuag at unigolion â dyslecsia;
- nodi ac egluro'r addasiadau rhesymol y dylai cyflogwr eu gwneud mewn ymateb i anawsterau eu gweithwyr â dyslecsia;
- asesu anghenion gweithle a darparu dadansoddiad astudiaeth achos.

Asesir y modiwl hwn gan ddadansoddiad adfyfyrion o anawsterau a brofwyd gan unigolyn â dyslecsia yn y gweithle, yn cynnwys unrhyw anawsterau llythrennedd a mathemategol, adroddiad cryno o ganlyniadau sgrînio a'r addasiadau rhesymol a awgrymir.

Deilliannau a ragwelir:

Deilliannau'r rhaglen hyfforddiant fydd Aseswyr Dyslecsia cenedlaethol hyfforddedig cymwys i Gymru a fydd yn gallu cefnogi gweithwyr sy'n oedolion â dyslecsia. Gall dysgwyr sy'n llwyddiannus yn y rhaglen hon hefyd gyfri eu dysgu tuag at gymhwyster AU drwy symud ymlaen mewn i fframwaith Ymarfer Proffesiynol y Drindod Dewi Sant, felly mae'n ehangu mynediad i AU ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn draddodiadol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Dilyswyd y modiwlau'n llwyddiannus, ac mae'r deunyddiau wedi cael eu hysgrifennu yn barod ar gyfer lansiad ym mis Chwefror 2012. Mewn cynhadledd Academi Addysg Uwch ar Ddysgu yn y Gweithle ar Ragfyr 7fed 2011, eglurodd Barbara Horsfall-Turner, Cadeirydd Dyslecsia Cymru pa mor syml oedd y broses o ddilysu wedi bod iddynt: "diolch i'r staff am wneud y broses yn rhwydd; cawsom ein harwain a'n llywio'n raddol bach yn y cyfeiriad cywir; a chrewyd y dau fodiwl sy'n ateb anghenion penodol y gweithiwr â dyslecsia yng Nghymru".

Hyd yn hyn, mae cofrestriadau ar y cwrs wedi dod o UNISON, Cyngor Sirol Ceredigion, a Bwrdd Iechyd Bro Morgannwg, yn ogystal â busnesau bach. Mae diddordeb hefyd wedi cael ei gyfleu mewn cyflenwi'r rhaglen mewn lleoliadau ar hyd a lled Cymru.

Os oes angen rhagor o wybodaeth ar yr astudiaeth achos hon, yna cysylltwch â Christine Hall, Swyddog Datblygu Busnes, Dyslecsia Cymru, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin, SA31 3EP, 01267 676629 (gweler hefyd: <http://www.walesdyslexia.org.uk>).

Myfyrdod/effaith:

Lansiwyd y fframwaith Ymarfer Proffesiynol yn sywddodol yng Ngholeg Prifysgol y Drindod ar 1 Mai 2009 gan Andrew Davies, AC, i ddarparu cyfleoedd dysgu hygyrch, hyblyg a chynhwysol sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr. Mae dilysiad y rhaglen hon yn gyfraniad pwysig at y nodau hyn ac rydym yn falch i weithio gyda'n cydweithwyr yn Dyslecsia Cymru. Mae llawer o gynnydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn ac rydym yn edrych ymlaen at weld sut y bydd y rhaglen hon yn cael effaith ar hyd a lled gweithleoedd yng Nghymru.

Tystysgrif i Raddedigion mewn Arweinyddiaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus: dull gweithio cydweithredol i gynllunio cwricwlwm ac APEL

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Dyfarniad)

Geiriau allweddol: arweinyddiaeth, gwasanaeth cyhoeddus, achrediad o ddysgu trwy brofiad blaenorol (APEL), dylunio cwricwlwm, cydweithrediad

Mae'r Dystysgrif i Raddedigion mewn Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid (LiPs) yn ddull rhanbarthol o weithio ar draws y sector cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar y cyd ar ddeilliannau a rennir ar gyfer dinasyddion Torfaen. Datblygwyd y rhaglen o gynnydd gan Brif Swyddog Gwasanaethau Cymdogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac fe'i dilyswyd mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac IF Development.

Nod:

Gyda disgwyliadau mwy gan ddinasyddion a rhwystrau cyllidol, mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu gorfodi i ail-werthuso sut y maent yn darparu gwerth gwell. Mae'r agenda polisi cyhoeddus yng Nghymru yn gofyn am ad-drefnu gwasanaethau cyhoeddus i fod yn fwy cynhwysol ac i ganolbwyntio ar y dinesydd. Mae hyn yn rhoi'r dinesydd wrth galon dylunio gwasanaeth integredig ac yn gofyn am ddulliau

cyflenwi gwasanaeth cydweithredol, cynhwysol a hyblyg. Mae angen i newid mor radical gael ei arloesi gan arweinwyr cryf, deallus, a blaengar eu meddwl er mwyn sicrhau bod ymarfer da yn cael ei wehyddu trwy gydol yr asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus i gyd wrth weithio ar draws ffiniau.

Datblygydd y rhaglen hon er mwyn hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus uwch-reolwyr o sefydliadau sy'n bartneriaid i gyflawni newid wedi'i gynllunio a'i ffocysu. Cyn hyn, roedd hyfforddiant dilysu yn ddibynol ar gyrsiau traddodiadol ac anffurfiol; prin iawn ydy'r hyfforddiant wedi canolbwyntio ar faes penodol. Mae ei gyflenwad yn hanfodol i lwyddiant adlinio'r gwasanaethau cyhoeddus. Mynychwyd lansiad y rhaglen gan Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Ymddiriedolaeth Iechyd Aneurin Bevan a'r Dirprwy Brif Gwnstabl. Yn ôl Alison Ward, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, roedd y diwrnod yn "dirnod yn natblygiad arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ar hyd a lled Cymru, gyda Thorfaen yn arwain y ffordd."

Wrth ddatblygu'r rhaglen, roedd uwch reolwyr ar draws y Cyngor, Ymddiriedolaeth Iechyd Aneurin Bevan, Heddlu De Cymru, Llywodraeth Cymru a'r sector gwirfoddol yn ymgysylltu ac yn cael eu gwahodd i fynychu.

Yn unigryw, cynigwyd llefydd hefyd i aelodau gwleidyddol ar draws pob plaid gwleidyddol, gan ffurfio partneriaeth unigryw rhwng swyddogion pob corff sector cyhoeddus a gwleidyddion. Rydym wedi cael un garfan llwyddiannus o ddysgwyr, gweler y manylion isod. Rhagwelir y bydd dau grŵp newydd o ddysgwyr potensial gyda rolau rheoli ar lefelau amrywiol o fewn y gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu recriwtio ar ôl yr etholiadau lleol ym mis Mai.

Disgrifiad/dull:

Mae'r Dystysgrif ôl-raddedig hon yn cwmpasu tri modiwl 20 credyd:

- Arweinyddiaeth bersonol ar gyfer Gwasanaeth Dinasyddion;
- Cud-destun Gwleidyddol o Wasanaeth Dinasyddion;
- Cyflenwi Deilliannau sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd.

O ystyried profiad a safle'r dysgwyr, ac ar ôl cael mewnbwn gan y partion i gyd, penderfynwyd y bydd y rhaglen yn gymysgedd o elfennau ymarferol, dysgu seiliedig ar waith, hyfforddi a setiau dysgu gweithredol. Cynigir cymorth drwy hyfforddiant unigol, ac mae rhith-amgylchedd dysgu wedi cael ei ddylunio i gael mynediad i'r deunyddiau modiwl a chyfeirio i gyd. Mae blogiau unigol a grŵp yn caniatáu i'r dysgwyr gad cofnod o'u cynydd, gan gyfthrebu gyda'i gilydd a gyda'u tiwtoriaid academaidd. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, IF Development ac uwch aelodau o staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen sy'n cyflenwi'r rhaglen, ac mae amserlen wedi cael ei datblygu. Gwahoddir pobl broffesiynol sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus fel siardwyr gwadd i gefnogi datblygiadau presennol.

Deilliannau a ragwelir:

Mae'r garfan gyntaf o 20 o ddysgwyr yn cynnwys uwch aelodau o staff o'r bartneriaeth o fewn gwasanaethau cyhoeddus Torfaen. Mae'r gwasanaeth iechyd, yr awdurdod lleol, yr heddlu, gwleidyddion traws-blaid o Lywodraeth Cymru a'r sector gwirfoddol i gyd yn cael eu cynnwys.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae pedwar ar bymtheg o'r 20 o ddysgwyr o garfan gyntaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi cwblhau'r dystysgrif i raddedigion a dewisodd un i adael ar ôl cwblhau un modiwl. Roedd gan dri o ddysgwyr credyd digonol gan APEL i raddio gyda'r MA llawn ym mis Gorffennaf 2011, mae un wedi dewis gadael â'r dystysgrif ac un gyda diploma. Mae'r gweddill yn gwneud y modiwl Cydnabyddiaeth ac Achredu Dysgu ac, os oes angen, y prosiect dysgu seiliedig ar waith, ac mae un yn gwneud modiwl Astudio Annibynnol er mwyn cwblhau ei dyfarniad. Mae hyn yn enghraifft wych o symud ymlaen i'r fframwaith Ymarfer Proffesiynol. Rhagwelir y bydd y dysgwyr hyn yn graddio gydag MA llawn mewn Ymarfer Proffesiynol yn Haf 2012.

Myfyrdod/effaith:

Y cred yw bod y ddarpariaeth hon yn unigryw o ran dod â gwasanaethau at ei gilydd o fewn un awdurdod, addysg uwch a darparwyr hyfforddiant. Mae'r cydweithrediad yn enghraifft o AU yn gweithio gyda chyflogwyr i gydnabod a lledaenu ymarfer da, fel a adlewyrchir yn Adroddiad Beecham, Beyond Boundaries (WAG, 2006). Mae Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Steve Thomas, wedi disgrifio'r rhaglen fel "rhaglen arloesol sy'n cipio sgiliau gwas cyhoeddus heddiw". Yn ychwanegol, mae Bernard Gaulton, Cyfarwyddwr Cyffredinol Datblygu Sefydliadol Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi disgrifio'r rhaglen fel "fframwaith o arweinyddiaeth i'w ehangu ar hyd a lled Cymru".

Roedd tystiolaeth o gynnydd hyder a'r gwahaniaethau mewn dulliau cyflwyno'r grwpiau'n amlwg yn gynnar yn y rhaglen. Y bwriad yw y bydd sefydliadau yn manteisio o arweinwyr sydd wedi'u grymuso, gweithlu brwdfrydig, cadw staff gwell, profiad o weithio ar draws ffiniau sefydliadol, sefydliad sy'n ffocysu ar ddarparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, a pherchnogaeth rhaglen sydd wedi'i theilwra ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Bydd yr effaith gadarnhaol hon yn cael ei chynnal a'i chadw trwy archwiliadau a gwerthusiadau cyson. Bydd dysgu yn hybu datblygiad pellach, rhaglenni a chyfranogwyr newydd, rhagor o raglenni ar lefelau gwahanol o astudio a chefnogi'r garfan bresennol i gyflawni gradd Meistr lawn.

Mae canlyniadau'r gwerthusiadau yn dangos ymrwymiad gwych i ddatblygiad proffesiynol pellach trwy ddysgu seiliedig ar waith. Mae'r graddfeydd datblygu o garfan Torfaen, er enghraifft, yn dangos fod yr uwch-reolwyr yn gallu cael brwdfrydedd o gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith o ansawdd uchel.



Cyfeiriadau

Beecham, J. (2006) Adolygiad o Ddarpariaeth Gwasanaethau Lleol: Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2009) Er Mwyn Ein Dyfodol: Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar Gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008) Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Ymateb i Ymgynghoriad ar y Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2006) Adroddiad Graham: Adolygiad Annibynnol o Astudio Addysg Uwch Rhan Amser yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

High Fliers Research Limited (2010) The Graduate Market in 2010: Annual review of graduate vacancies and starting salaries at Britain's leading employers. Llundain, High Fliers.

Laycock, M. (2011) Learner Engagement: A Guide to Negotiated Work-Based Learning. Llundain: SEDA.

Lord Leitch (2006) Leitch review of skills: Prosperity for all in the global economy - world class skills. Trysorlys ei Mawrhydi.

Lemanski, T., Mewis, R. a Overton, T. (2011) An Introduction to Work-Based Learning, A Physical Sciences Practice Guide. Hull: UK Physical Sciences Centre, Prifysgol Hull.

Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (2007) Datganiad meincnodi Pwnc: Busnes a rheoli cyffredinol.

Moreland, N. (2005) Work-related learning in higher education. York: Academi Addysg Uwch

Yorke, M. a Knight, P. (2006) Embedding employability into the curriculum. York: Academi Addysg Uwch.

Cysylltwch â ni

Academi Addysg Uwch Cymru
d/o Addysg Uwch Cymru
2 Caspian Point
Ffordd Caspian
Bae Caerdydd
Caerdydd

+44 (0) 292 0471 520
wales@heacademy.ac.uk

Yr Academi Addysg Uwch, 2012

Ni chaniateir atgynhyrchu na throsglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, boed electronig neu fecanyddol, gan gynnwys llun-gopïo, recordio neu unrhyw system storio ac adferiad heb ganiatâd ysgrifenedig y Golygydd. Caiff caniatâd o'r fath ei roddi fel arfer at ddibenion addysgol cyn belled â bod cydnabyddiaeth deilwng yn cael ei rhoddi..